

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 12fed Mehefin, 2018
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Peredur Jenkins	Aelod Cabinet Cyllid
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
W. Gareth Roberts	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHAFFU			
5	COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 22 MAI 2018			3 - 9
6	AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID	Cyng Craig ab Iago	Catrin Thomas	10 - 16
7	ADRODDIAD YSGOL BRO IDRIS	Cyng Gareth Thomas	Debbie Ann Williams Jones	17 - 42
8	BAND B RHAGLEN YSGOLION UNFED GANRIF AR HUGAIN	Cyng Gareth Thomas	Garem Jackson a Dafydd Gibbard	43 - 48
9	CYNNIG GOFAL PLANT 30 AWR AR GYFER PLANT 3-4 OED	Cyng Dilwyn Morgan	Sioned Owen a Rachel Jones	49 - 58
10	CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23: CAIS AM ADNODDAU O'R GRONFA DRAWSFFURFIO	Cyng Nia Jeffreys	Dewi Wyn Jones	59 - 61

Y CABINET DYDD MAWRTH, 22 MAI 2018

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 6: Llyr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned)
Eitem 7, 8 a 9: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 8 MAI

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 8 Mai 2018, fel rhai cywir

6. RHAGLEN ADFYWIO NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU - TRIP

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNWYD

Penderfynwyd i:

- Gymeradwyo'r Strategaeth Adfywio Rhanbarthol ddrafft er mwyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Gofyn fod ymrwymiad o fewn y Strategaeth ddrafft bod gwaith adnabod ac ymateb i faterion sy'n ymwneud ag amddifadedd gweledig yn derbyn sylw yn ystod 2018/19
- Fod gwaith pellach yn cael ei wneud er mwyn ystyried cyfleoedd posib o Rhaglen TRI gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn amlinellu cynigion arfaethedig.
- Ofyn i swyddogion adolygu'r strwythur llywodraethu er sicrhau bod ei fod yn fwy clir ac eglur

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi gan fod yr eitem yn un rhanbarthol ac y bydd angen ei drafod ym mhob un o'r Cynghorau ar hyd Gogledd Cymru. Ychwanegwyd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi'r angen am Gynllun Adfywio Rhanbarthol, ac y bydd angen cyflwyno a chymeradwyo'r Cynllun cyn y byddai'r Llywodraeth yn derbyn ceisiadau am fuddsoddiad. Nodwyd mai nod y rhaglen yw i gefnogi prosiectau sydd yn hyrwyddo adfywiad economaidd, ac y bydd y rhaglen yn gallu ystyried cyfraniad buddsoddiad cyfalaf o hyd ar 70%.

Ymhelaethwyd ar flaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y Strategaeth Adfywio gan nodi er mwyn adnabod ardaloedd o angen fod y Strategaeth ddrafft yn cyfeirio'n bennaf ar ddata Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. Pwysleisiwyd fod y strategaeth yn argymhell y blaenoriaethau prosiectau adfywio canol tref y 4 anheddle sef Rhyl, Wrecsam, Bangor a Bae Colwyn.

Ychwanegwyd fel rhan o'r gwaith paratoi ym Mangor fod Partneriaeth Dinas Bangor wedi ei sefydlu, ac mae gwaith pellach wedi ei wneud i baratoi strategaeth adfywio ar gyfer y ddinas sy'n seiliedig ar dair prif thema. Nodwyd fod angen gwaith rhagbaratoi pellach ar gyfer datblygu cynigion amlinellol yn prosiectau manwl, ac ychwanegwyd fod y rhaglen waith yn cael ei adolygu gan y Bartneriaeth.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd gyda dyraniad ariannol sydd wedi yn rannu yn dri rhan, a fydd modd i arian gael ei rannu ar draws y sir ar gyfer ail neu'r trydydd rhan, nodwyd y bydd modd datblygu prosiectau tu hwnt i'r lleoliadau sydd wedi ei nodi fel blaenoriaethau.
- Trafodwyd y Cronfa Datblygu Prosiect ar gyfer pob rhanbarth, a fydd yn darparu cyfraniad 50% ar gyfer costau prosiectau'n gynnar, holwyd os mai y Cyngor fydd angen dod o hyd i'r 50% arall. Ymatebwyd gan nodi nad yw'r arian yn gorfod dod gan y Cyngor, yn dibynnol ar y prosiect bydd modd gofyn i sefydliad arall sydd yn rhan o'r bartneriaeth i gyfrannu'r 50%.
- Tanlinellwyd y ffaith y byddai angen darganfod 30% o gost unrhyw gynllun ac felly pe byddai hynny yn disgyn ar y Cyngor byddai'n rhaid iddo

gystadlu yn erbyn cynlluniau eraill yn y Cynllun Asedau.

- Nodwyd fod y strwythur yn y strategaeth i'r gweld yn un cymhleth, mynegwyd fod gwaith pellach i'w wneud ac y bydd elfen o atebolrwydd i'w gweld ar bob cyngor. Nodwyd fod angen i'r Strwythur fod yn fwy clir.
- Nodwyd y bwriad i gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet, fydd yn nodi cynigion penodol a'r pecyn ariannol, er mwyn medru ystyried a yw'r Cyngor am roi unrhyw arian cyfatebol i'r cynlluniau hynny.

7. TROSOLWG ARBEDION 2017/18: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion yn ystod 2017/18

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ar ddiwedd blwyddyn ariannol fod angen trosolwg o'r arbedion a gyflawnwyd. Cychwynwyd gan nodi fod y cynlluniau adrannol ar gyfer 2016/17 mai dim ond dau gynllun sydd bellach yn disgwyl i gael ei gwireddu yn ystod 2018/19, ac yn nhermau ariannol mae dros 99% o arbedion 2015/16 a 2016/17 bellach wedi'u gwireddu. Edrychwyd ar gynlluniau arbedion 2017/18, ac o'r 122 o gynlluniau mae 108 wedi eu gwireddu'n llawn neu yn rhannol yn amserol. Nodwyd yn nhermau ariannol, roedd 81% o'r arbedion wedi'u gwireddu.

Ymhelaethwyd ar y cynlluniau sydd wedi llithro a nodwyd fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cyflwyno eu cynlluniau arbedion newydd i'r Cabinet a rhagwelir y bydd yn galluogi'r adran i wneud cynnydd sylweddol tuag at wireddu'r arbedion sydd wedi llithro. Nodwyd wrth edrych ar y Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd ac yr Adran Priffyrdd fod angen cyflwyno adroddiad i'r Cabinet sy'n amlinellu'r cynlluniau amgen i wireddu arbedion ariannol perthnasol.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid roedd cynnydd boddhaol ar draws y Cyngor i wireddu tua £6 miliwn o arbedion yn 2017/18.

O ran cynlluniau sydd ar y gweill i'w gwireddu yn 2018/19 nodwyd fod y cynlluniau yn edrych yn addawol, ac fod yr Aelod Cabinet yn fodlon iawn gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu'r cynlluniau arbedion 2017/18.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Bu i'r tri aelod Cabinet, ble mae cynlluniau wedi llithro, nodi fod gwaith yn cael ei wneud i ail edrych ar eu cynlluniau ac fod camau yn ei lle ar gyfer gwireddu'r arbedion sydd wedi llithro.
- Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr gyfleu diolchiadau'r Cabinet i holl staff y

Cyngor am eu gwaith yn dod o hyd i'r arbedion a'u gwireddu tra ar yr un pryd yn llwyddo i gadw ansawdd uchel y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan gydnabod nad yw'n broses hawdd.

8. CYFRIFON TERFYNOL 2017-18 - ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2017/18.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef –

ADRAN	£'000
Oedolion, lechyd a Llesiant	(100)
Plant a Theuluoedd	100
Addysg	0
Economi a Chymuned	(35)
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	100
Amylchedd (Rheoleiddio gynt)	(100)
Ymhynghoriaeth Gwynedd	(82)
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(66)
Cyllid	(66)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(67)

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Trosglwyddo £457k, cyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf i gronfa benodol er mwyn cefnogi hyblygrwydd a hwyluso trawsffurfio yn y maes Oedolion i'r dyfodol.
- Cynaeafu (£37k) o'r tanwariant sef y swm uwchlaw (£100k) Oedolion, lechyd a Llesiant, i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.
- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £676k i leddfu rhan helaeth o orwariant 2017/18, gan ganiatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2018/19.
- Trosglwyddo £207k ei ddileu gorwariant yr Adran Addysg, tra fod polisiau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £203k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2018/19.
- Trosglwyddo £378k o danwariant 2017/18 yr Adran Amgylchedd i gronfa benodol, yn ymwneud â bysus a chost llwybrau, i'w ddefnyddio yn 2018/19.
- Cynaeafu (£89k) o danwariant yr Adran Amgylchedd sef y swm uwchlaw

(£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.

- Cynaeafu (£894k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol (ar Ostynigiad Treth Cyngor, bidiau a chyllidebau a ddychwelwyd gan adrannau ac ar benawdau eraill), a'i drosglwyddo i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18.
- Trosglwyddo £66k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol, sef y balans sydd angen, i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, sef:

- Cynaeafu (£2.915m).
- Neilltuo £2.749m ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Neilltuo £166k ar gyfer materion gwastraff.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen i'r Cabinet i gymeradwyo'r sefyllfa ariannol derfynol 2017/18 er mwyn i'r Adran Gyllid symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn 30 Mehefin. Ymhelaethwyd gan nodi fod sefyllfa ariannol mwyafrif o'r adrannau yn tanwario am 2017/18. Ychwanegwyd fod gwelliant sylweddol i sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion yn ystod y chwarter olaf yn dilyn derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn.

Nodwyd fod gorwariant ar wasanaethau penodol yn yr Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd, Adran Addysg a Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Ychwanegwyd yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2017/18, mae ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebau 2018/19 ac o ganlyniad mae mwyafrif o'r materion hyn eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2018/19.

Ychwanegwyd fod tanwariant un tro yn nifer o benawdau y gyllideb gorfforaethol ddiwygiedig am 2017/18, a nodwyd y bydd y tanwariant net yma ar gael i liniaru gorwariant adrannau, gyda cyfraniad o £66k pellach, i'w rhyddhau o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- O ran yr Adran Brifffyrdd a Bwrdeistrefol nodwyd y rhesymau dros yr orwariant gan nodi fod trefniadau yn ei lle i edrych ymhellach ar y problemau oedd yn codi.
- Wrth edrych ar gludiant integredig, nodwyd fod cymorth ariannol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ail-dendro teithiau bysus, ond ychwanegwyd fod problemau yn parhau ac o ganlyniad fod y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i gwrdd a'r costau cysylltiedig yn 2018/19.
- Mynegwyd fod gwaith yn mynd rhagddi wrth edrych ar gludiant o fewn yr Adran Addysg.

9. RHAGLEN GYFALAF 2017-18 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad sef:

- Cynnydd £4,514,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- Cynnydd £326,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- Lleihad £371,000 mewn defnydd o fenthycia arall
- Lleihad £335,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Lleihad £53,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- Lleihad £65,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod dadansoddiad fesul adran o'r rhaglen gyfalaf £51.733m i'w gweld yn rhan 3 o'r adroddiad. Ychwanegwyd fod cynnydd net o £4.016m ers yr adolygiad diwethaf ac fod hyn yn adlewyrchiad o waith caled yr adrannau. Nodwyd fod £15.6m o'r gyllideb gwariant yn llithro o 2017/18, ond pwysleisiwyd nad oedd unrhyw golled ariannu grant o ganlyniad i hyn.

Diolchwyd i staff yr Adran Gyllid am eu gwaith caled yn cau y cyfrifon ac hynny wrth i'r amserlen gael ei gwtogi.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu gwaith dros drigolion Gwynedd a hynny yn wyneb arbedion.
- Ychwanegwyd fod yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi derbyn grant ychwanegol o £2m gan y Llywodraeth ar gyfer lonydd, a bydd y gwaith yn cychwyn gyda Lonydd dosbarth C.
- Bu gwariant cyfalaf sylweddol ar Ysgolion / Addysg, bydd yn disgyn o ganlyniad i gynllun Llywodraeth Cymru dod i ben.

10. PARATOI AT DDYFODOL ARIANNOL ANEGLUR

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i:

- Ddygymod gyda'r sefyllfa ariannol aneglur yr ydym yn ei wynebu o 2019/20 ymlaen drwy ddilyn y drefn a nodir yng nghymal 10 yr adroddiad
- Gosod cyfundrefn yn ei le er mwyn sicrhau fod pob Adran wedi edrych ymhob twll a chornel am arbedion effeithlonrwydd

- Comisiynu adolygiad o haenau rheolaethol o fewn y Cyngor (gan gynnwys Craffu yn y broses honno) l'w cwblhau yn ystod y flwyddyn galendr ei mwyn sicrhau fod ei nhrefniadau rheolaethol yn addas at ei bwrpas.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi nad oes argoel ar hyn o bryd fod y cyfyngiadau ariannol mae'r Llywodraeth yn eu gosod ar Llywodraeth Leol am ddod i ben yn fuan. Ychwanegwyd fod angen edrych ar arbedion er mwyn blansio'r llyfrau ond ceisio gwneud hynny heb effeithio yn andwyol ar bobl Gwynedd.

Ychwanegwyd fod trefn posib wedi ei nodi yn y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2017 a oedd yn golygu dechrau amlygu'r dewisiadau posib ar gyfer arbedion. Yn dilyn trafodaeth gyda Cadeiryddion ac Is gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu nodwyd fod angen efallai edrych ar ffordd wahanol o ddygymod gyda'r sefyllfa.

Esboniwyd y drefn newydd gan nodi fod y drefn yma yn taro'r balans rhwng sicrhau nad yw'r Cyngor yn gor ymateb, ond fod y Cyngor yn barod i gwrdd a'r amrediad o bosibiliadau ariannol allasai godi yn flynyddol. Ychwanegwyd fod angen sicrhau fod pob gronyn o arbedion effeithlonrwydd hefyd wedi ei wasgu allan, a bydd gofyn ar pob adran i sicrhau fod yr arbedion yn cael eu gwneud. Yn ychwanegol at hyn, argymhellwyd fod y Cabinet yn comisiynau adolygiad o'r drefn rheolaethol. Tanlinellwyd y ffaith na ddylid rhagdybio fod hyn am arwain at unrhyw arbediad ariannol ond 'roedd yn arferiad da i gymryd golwg ar y mater i sicrhau fod ein trefniadau rheolaethol yn addas at bwrpas ac yn gyson draws yr adrannau.

Pwysleisiwyd fod y Cyngor yn paratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf o ran arbedion, ond gobeithio am y gorau. Ymhelaethwyd y bydd yr union arbedion fydd eu hangen yn ddibynnol ar faint y bwlch y bydd angen ei gyfarch yn ddibynnol ar y grant y Llywodraeth, a daw hynny'n amlwg yn yr hydref.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.20 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 6

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod:	12 Mehefin 2018
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt:	Catrin Thomas
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679 913
Teitl yr Eitem:	Ail-Fodelu'r Gwasanaeth Ieuentid

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn yr adroddiad ar weithrediad ail fodelu Gwasanaeth Ieuentid a phenderfyniad y Cyngor ar 3 Mai 2018, a chytuno ar ymateb y Cabinet i'r cais i ail-ystyried elfennau penodol o'r model.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 I benderfynu ar yr ymateb i'r ystyriaethau a nodwyd gan y Cyngor Llawn, 3ydd o Fai, 2018

3. CEFNDIR

3.1 Ym mis Mawrth 2016 penderfynodd y Cyngor drwy Her Gwynedd i dorri £200,000 o gyllideb y Gwasanaeth Ieuentid yn 2017-18, ynghyd a chyflawni targed effeithlonrwydd o £70,000 drwy "ail-ddylunio'r gwasanaeth a chan dderbyn y bydd angen ystyried y grantiau i fudiadau ieuentid fel rhan o'r holl adolygiad". Mae'r lleihad yn dod a chyllideb (dan reolaeth) y Gwasanaeth Ieuentid i £725,300 o 2017-18 ymlaen.

3.2 Cwblhawyd adolygiad o'r gwasanaeth, ynghyd a rhaglen ymgysylltu gyda pobl ifanc a phartneriaid i lunio opsiynau ar gyfer ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuentid, oddi fewn i gyd-destun ariannol penderfyniad Her Gwynedd.

3.3 Cyflwynwyd yr Opsiynau, Asesiad Opsiynau, ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r opsiynau i'r Cabinet, 24 Hydref 2017. Penderfynodd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad ar ffurf y Gwasanaeth Ieuentid i'r dyfodol, gan adnabod Opsiwn 3 fel yr opsiwn a ffafrir.

3.4 Cyflwynwyd gasgliadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd a'r llwybr i adnabod yr opsiwn a ffafrir i'r Pwyllgor Craffu, 23 Ionawr 2018, i gasglu eu sylwadau.

3.5 Cyflwynwyd yr achos dros newid, yr asesiad opsiynau, canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, sylwadau'r Pwyllgor Craffu ac asesiad effaith cydraddoldeb i'r Cabinet, 13 Mawrth 2018. Yn seiliedig ar ystyriaeth ac asesiad o'r holl ffactorau hyn nid oedd parhau i gynnal y Gwasanaeth Ieuentid fel ag yr oedd yn opsiwn i'r dyfodol.

3.6 Penderfynodd y Cabinet i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn unol a'r cyfeiriad a nodwyd yn Opsiwn 3 gydag addasiadau i liniaru effeithiau oedd wedi eu hadnabod.

3.7 Yn sgil y penderfyniad mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cychwyn ar weithredu'r ail-fodelu er mwyn sicrhau gwasanaeth i bobl ifanc y sir ym mis Medi 2018.

4. Y RHYBUDD O GYNNIG, CYNGOR LLAWN 3, MAI, 2018.

4.1 Cyflwynwyd rhybudd o gynnig i'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fai 2018 gan y Cyngorydd Alwyn Gruffydd ac yn ei sgil cynigwyd gwelliant gan y Cyngorydd Menna Baines.

4.2 Mabwysiadwyd y penderfyniad canlynol yn sgil gwelliant. :-

“Bod y Cyngor hwn hefyd yn gofyn i Gabinet y Cyngor ail-ystyried elfennau penodol o'r model newydd ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid y Sir a hynny oherwydd ein pryderon ar 3 chyfrif:-

- 1) y newid pwyslais o'r cymunedol i les unigolion
- 2) yr effaith ar ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir
- 3) yr effaith ar yr iaith Gymraeg

Gofynnwn felly i'r Cabinet gynnal trafodaethau brys, erbyn diwedd y mis hwn, os yn bosib', gyda phob un o'r cynghorau tref, cymuned a dinas ynghyd ag asiantaethau perthnasol eraill. Diben hyn fyddai edrych ar ffyrdd o gydweithredu er mwyn ariannu parhad cynifer â phosib' o glybiau ieuenctid y sir, lle dymunir hynny, tros y cyfnod traws-ffurfiannol ac er mwyn rhoi cymorth priodol i'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol a fu'n derbyn nawdd tan yn ddiweddar.

Gofynnwn hefyd i'r Cabinet gynnal asesiad ieithyddol o effaith yr ad-drefnu ac asesiad o'i effaith gymunedol ar ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir.”

4.2 Er fod y Cyngor wedi gofyn i'r Cabinet ail ystyried elfennau penodol o'r model newydd mae'r testun yn gyfrifoldeb cyfreithiol y Cabinet i benderfynu. Gan hynny mae'r sut ac ym mha fodd i ymateb i gais y Cyngor i'r Cabinet ddod i gasgliad arno o fewn y Fframwaith Bolisi a Chyllidol yr Awdurdod.

4.3 Nodir isod y camau sydd wedi eu cymryd gan y Gwasanaeth Ieuenctid yng nghyd-destun pob un o'r materion sydd wedi eu codi yn y Cyngor.

5. Y NEWID PWYSLAIS O'R CYMUNEDOL I LES UNIGOLION

5.1 Lleisiodd pobl ifanc, partneriaid a sefydliadau eraill eu barn wrthym ar y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Adnabuwyd 3 blaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid sef :-

- Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau
- Helpu pobl ifanc gyda'i datblygiad personol
- Helpu pobl ifanc gyda materion iechyd a lles

(Ymarferiad Ymgysylltu, Hydref 2016-Mawrth 2017)

5.2 Fe ddywedodd pobl ifanc wrthym hefyd eu bod eisiau'r gefnogaeth yma mewn awyrgylch ddiogel, sy'n caniatáu iddyn nhw gymdeithasu gyda'u ffrindiau a chael hwyl.

5.3 Cadarnhaodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2017 fod 63% o'r ymatebwyr (3,391) yn cefnogi'r blaenoriaethau.

5.4 Yn ychwanegol i'r hyn y mae pobl ifanc wedi ei ddweud wrthym, mae polisi a strategaethau cenedlaethol hefyd yn gosod cyfeiriad ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid.

5.5 Mae Llywodraeth Cymru, o dan y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000, yn gosod cyfeiriad ar gyfer Gwasanaethau Ieuencid. Daw'r cyfarwyddyd hwnnw ar hyn o bryd drwy'r Cyfarwyddyd a Chanllawiau Ymestyn Hawliau 2002, Strategaeth Gwaith Ieuencid Cymru 2014-2018, a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chyflawniad 2015-18.

5.6 Mae'r pwyslais gan Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod i wyro Gwasanaethau Ieuencid tuag at gefnogi pobl ifanc gyda'u dysgu a'u haddysg, ac i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith.

5.7 Mae'r Gwasanaeth Ieuencid hefyd yn gweithredu yn unol a'r "Datganiad Cwricwlwm ar Waith Ieuencid". Noda'r Datganiad Cwricwlwm fod gwaith ieuencid yn

- seiliedig ar berthynas wirfoddol rhwng y person ifanc a'r gweithiwr ieuencid,
- yn darparu rhaglenni addysgol anffurfiol sy'n ymateb i anghenion unigolion (megis cymorth gyda sgiliau, cymorth iechyd a lles, cymorth gyda'u datblygiad personol a'u cyflawniad addysgol)
- ac i'w ddarparu mewn amgylchedd ddiogel.

5.8 Drwy'r ail-fodelu bydd y Gwasanaeth Ieuencid yn gweithio oddi fewn i gymunedau, ledled Gwynedd i gynnal gweithgareddau a prosiectau. Ni fydd y Gwasanaeth Ieuencid yn gweithio oddi fewn i gymunedau drwy redeg rhwydwaith o glybiau ieuencid mewn rhai adeiladau a chymunedau dynodedig.

5.9 Mae'r Cynllun Ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid yn ymateb i'r hyn y mae pobl ifanc wedi ei ddweud wrthym sydd yn flaenoriaeth iddyn nhw, yn ymateb i'r cyfeiriad polisi sydd arnom, a hynny oddi fewn i'r gyllideb sydd ar gael.

6. YR EFFAITH AR ARDALOEDD MWYAF DIFREINTIEDIG

6.1 Mae Clwb Ieuencid wedi bod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, sef Maesgeirchen a Caernarfon, yn unol a diffiniad Llywodraeth Cymru (cymunedau sydd yn y 10% uchaf o'r Mynegai Amddifadedd Lluosog, 2014). Mae'r ail-fodelu yn symud i ffwrdd o hyn, a'r asesiad effaith cydraddoldeb sydd wedi ei ystyried yn nodi fod effaith negyddol felly ar yr ardaloedd difreintiedig.

6.2 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi adnabod mesurau lliniaru, a rheiny bellach wedi eu cynnwys yn rhan o'r ail-fodelu, sef

- sicrhau presenoldeb y Gwasanaeth yn y 2 gymuned ac i'r perwyl hynny mae Canolfan Ieuencid Penrallt a Chanolfan Ieuencid Maesgeirchen i'w defnyddio fel lleoliad swyddfa i rai o'r Gweithwyr Ieuencid Llawn Amser, i'w defnyddio ar gyfer cynnal gweithgareddau a prosiectau'r Gwasanaeth Ieuencid, ac i'w defnyddio ar gyfer gweithgarwch gymunedol arall.
- sicrhau gweithgareddau yn fwy aml yn y ddwy gymuned yma.
- targedu grantiau (er enghraifft SBLASH) ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd daearyddol hyn.

6.3 Defnyddiwyd y dull yma o adnabod ardaloedd difreintiedig gan fod y Mynegai Amddifadedd yn cael ei gydnabod fel y teclyn a ddefnyddir yn gyffredinol erbyn hyn i fesur

amddifadedd / tlodi / difreintedd. Fodd bynnag, un teclyn ydyw sydd yn mesur tlodi, ac mae pryder nad yw'n declyn priodol ar gyfer adnabod tlodi mewn ardaloedd gwledig.

6.4 Mae'r adborth sydd wedi dod yn ystod ac yn dilyn yr ymgynghoriad yn cadarnhau fod rhai cymunedau / ardaloedd y tu hwnt i Maesgeirchen a Caernarfon yn ystyried eu hunain yn ddifreintiedig er nad ydynt yn ymddangos yn uchel oddi fewn i'r Mynegai Amddifadedd. Mae i gynllunio gwasanaeth ar sail amddifadedd gofodol felly ei her. Fodd bynnag, fe wnaeth y Cabinet ystyried opsiynau i ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid ar sail ofodol fyddai'n cyfarch ardaloedd difreintiedig - sef yr opsiynau i redeg clybiau mewn 10 neu 14 cymuned yn unig. Dangosodd asesiad effaith o'r opsiynau hynny y byddai'r effaith yn fwy negyddol pe bai'r Cabinet wedi cymryd y trywydd hwn. Roedd effaith negyddol ar fynediad pobl ifanc i'r Gwasanaeth Ieuenctid wrth gyfyngu'r gwasanaeth i glybiau mewn nifer fechan o gymunedau.

6.5 Mae'r Cabinet hefyd wedi ystyried difreintedd y tu hwnt i'r diffiniad daearyddol yn yr asesiad effaith cydraddoldeb. Pan ystyriodd y Cabinet y proffil pobl ifanc oedd yn rhan o'r adolygiad ac adborth yr ymgynghoriad cyhoeddus daeth yn amlwg fod difreintedd yn gysyniad ehangach na rhywbeth sy'n effeithio 'llefydd' yn unig. Roedd yr adborth yn dangos fod pobl ifanc yn gallu wynebu rhwystrau, diffyg cyfleon, heriau wrth dyfu i fyny, dad gysylltu rhag addysg, hyfforddiant neu waith, a bod yn agored i niwed waeth lle mae nhw'n byw. Er fod crynhoad uwch o bobl ifanc fregus gyda anghenion yn byw yn y llefydd mwyaf trefol megis Maesgeirchen a Caernarfon, nid yw'r anghenion hyn yn unigryw i'r ardaloedd daearyddol penodol hyn.

6.6 Mae'r Cynllun Ail-fodelu sydd wedi ei fabwysiadu yn cynnwys mesurau i liniaru effeithiau'r newid ar yr ardaloedd difreintiedig. Bydd gweithgareddau a prosiectau'r Gwasanaeth Ieuenctid wrth symud o leoliad i leoliad yn cyrraedd pobl ifanc a cymunedau drwy'r sir, gan gynnwys rheiny nad ydynt wedi cael gwasanaeth hyd yn hyn (dim clwb ieuenctid yn y gymuned yn flaenorol).

7. YR EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

7.1 Mae'r effaith ar yr iaith wedi ei ystyried yn rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn unol a pholisi iaith y Cyngor yn darparu ei holl waith drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd hynny yn parhau i'r dyfodol.

7.2 Nododd 0.2% o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus (Rhagfyr 2017) y byddai dirywiad i'r iaith Gymraeg pe bai'r Gwasanaeth yn ail-fodelu.

7.3 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi y bydd yr ail-fodelu yn arwain at lai o glybiau mewn cymunedau i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg, ac felly effaith negyddol posibl ar y siaradwyr Cymraeg ifanc arferai fynychu Clwb Ieuenctid na fydd yn dymuno cymryd rhan yn y gweithgareddau a'r prosiectau newydd. Mae'r asesiad hefyd yn nodi y bydd yr ail-fodelu yn darparu gweithgareddau a prosiectau i bobl ifanc drwy gyfrwng Cymraeg, ac yn sgil hynny bydd effaith bositif posibl ar Siaradwyr Cymraeg ifanc fydd yn cymryd rhan, yn enwedig o'r cymunedau hynny ble nad oedd Clwb Ieuenctid.

7.4 Mae'r gofynion ieithyddol ar y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau, ac nid yw'r ail-fodelu yn newid y disgwyliadau hynny. Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i

- gynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc y sir,
- wella ymwybyddiaeth o werth yr iaith, drwy gynnal sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith i'w weithlu ac i bobl ifanc,

- sicrhau gwell mynediad at weithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg, ar draws cymunedau'r sir.

(amcanion Strategaeth Iaith 2012-2018)

8. CYDWEITHREDU GYDA'R CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

8.1 Yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu, Ionawr 2018, mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi agor trafodaethau gyda rhai cyngorau cymuned a thref ynghylch adnabod ffyrdd o gydweithredu er mwyn ariannu parhad cynifer â phosibl o glybiau ieuencid y sir, lle dymunir hynny.

8.2 Anfonwyd llythyr at 32 Cyngor Cymuned a Thref ar 31 o Ionawr 2018, sef y cyngorau hynny ble oedd Clwb Ieuencid yn cael eu cynnal ynddynt rhwng Medi 2017 a Mawrth 2018. Derbyniwyd 16 ymateb, ac o'r rheiny roedd 10 Cyngor Cymuned yn awyddus i drafod ymhellach.

8.3 Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r 10 cymuned, ac maent yn amrywio o ran y math o drefniadau cydweithredu posibl. Dyma flas o'r syniadau sydd yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

- Rhoi cyfraniad i'r Gwasanaeth Ieuencid i barhau i gynnal y Clwb Ieuencid
- Rhoi cyfraniad i'r Gwasanaeth Ieuencid i ddarparu gweithgareddau a phrosiectau yn eu cymuned (yr ail-fodelu)
- Rhoi cyfraniad i fudiad gwirfoddol i redeg Clwb Cymdeithasol yn lleol
- Rhoi cyfraniad ariannol i Ganolfan Hamdden i gynnal sesiwn ieuencid gyda'r nos yn rheolaidd
- Rhedeg Clwb Ieuencid eu hunain (drwy gyflogi gweithwyr eu hunain).
- Cefnogaeth i sefydlu Clwb Gwirfoddol o'r newydd (gyda thrafodaethau ynghylch adnoddau, offer a chyfrifon y Clwb Ieuencid sydd newydd gau yn trosglwyddo i'r endid newydd, a'r Gwasanaeth Ieuencid yn darparu hyfforddiant gwaith ieuencid a diogelu i wirfoddolwyr).

9. CYMORTH PRIODOL I'R MUDIADAU IEUENCTID FU'N DERBYN NAWDD.

9.1 Mae trafodaethau wedi bod gydol y ddwy flynedd ddiwethaf rhwng y Gwasanaeth Ieuencid a'r Urdd, Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri a Mudiad Ffermwyr Ifanc Meirionnydd.

9.2 Mae'r Cabinet wedi ystyried yr effaith ar y mudiadau ieuencid hyn wrth wneud y penderfyniad ym mis Mawrth 2018. Mae'r Cabinet wedi gofyn i'w wasanaethau ddarparu cymorth benodol i'r mudiadau i ymateb i'r effeithiau, megis

- darparu cyngor ymgynghorydd adnoddau dynol a chynghor pensiynau ar faterion cyflogaeth / cyflogres;
- cyngor cynllunio busnes a llywodraethu
- cefnogaeth swyddog adfywio bro ar adnabod cyfleon i dargedu grantiau ac uchafu incwm,
- parhau i dalu am logi lleoliadau ar gyfer cynnal aelwydydd, clybiau mewn ysgolion,
- parhau i dderbyn ceisiadau i'r Gronfa Degwm tuag at Eisteddfodau'r Ffermwyr Ifanc,
- parhau i gynnig hyfforddiant gwaith ieuencid a diogelu i weithwyr cyflogedig y Mudiadau Ffermwyr Ifanc,
- rhoi cynnig grant cyfystyr a 9 mis o'r grant presennol i'r mudiadau ar gyfer 2018-19.

9.3 Mae'r Cabinet yn cydnabod cyfraniad yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i'r iaith, i gymunedau ac i fywydau'r bobl ifanc sy'n aelodau iddynt hwy. Mae aelodau o'r Cabinet wedi cyfarfod gyda'r mudiadau ac wedi datgan parodrwydd ac awydd i sicrhau fod y cydweithio rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn parhau i'r dyfodol er lles ieuenctid y sir.

9.4 Mae'r Cynllun i Ail-fodelu yn cynnwys sefydlu trefniadau ar gyfer comisiynu mudiadau i ddarparu gweithgareddau i ymateb i anghenion pobl ifanc y sir. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid eisoes wedi treialu trefn gomisiynu gyda'r Urdd mewn perthynas a chynnal alldeithiau i bobl ifanc. Mae llwyddiant y bartneriaeth hon wedi amlygu y cyfleon sydd o gydweithio a chomisiynu rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a mudiadau gwirfoddol y gellid adeiladu arno i'r dyfodol.

10. CRYNODEB.

10.1 Mae'r Cabinet eisoes wedi cyfarwyddo'r Gwasanaeth Ieuenctid i adrodd ar gynnydd yr ail-fodelu i gyfarfodydd y Cabinet. Bydd adroddiadau Herio Perfformiad yr Aelod Cabinet yn adrodd ar gynnydd a bydd yn gyfle i'r Cabinet herio a monitro'r cynnydd hwnnw.

10.2 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi adnabod mesurau lliniaru ac wedi eu cynnwys yn yr ail-fodelu, fel eu bod yn cael eu cyfarch yn y gwasanaeth newydd.

10.3 Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda rhai cynghorau cymuned ac bydd rheiny yn parhau ar gyfer adnabod a sefydlu trefniadau amgen i gynnal clybiau cymdeithasol i bobl ifanc.

10.4 Mae cefnogaeth eisoes wedi ei gynnig yn benodol i'r Mudiadau Ffermwyr Ifanc. Mae'r mudiadau a'r Gwasanaeth Adfywio Bro a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gydweithio er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

10.5 Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio ar ddatblygu'r Drefn Gomisiynu yn rhan o'i rhaglen waith yn ystod y 12 mis nesaf, sef adnabod yr anghenion ac adnabod a sefydlu'r drefn gomisiynu, er mwyn cychwyn comisiynu wedi hynny, yn ôl yr angen.

11. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

Prif Swyddog Cyllid:

"Mater i aelodau'r Cabinet yw cytuno ar ymateb i'r ystyriaethau nodwyd yn y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fai. Wrth gwrs, pe bai penderfyniad i beidio ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid, byddai hynny'n gorfod cael ei ariannu yn barhaol, ac o ganlyniad yn golygu llai o adnoddau i gynnal wasanaethau eraill.

Fodd bynnag, gallai'r Cyngor barhau i ail-fodelu'r gwasanaeth, ond defnyddio adnoddau untro o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu trefniadau amgen dros-dro."

Y Swyddog Monitro:

"Fe nodir yn gywir yn yr adroddiad mai mater i'r Cabinet yw'r ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid o fewn Gwynedd. Felly, mae'n fater o ddisgresiwn y Cabinet ddod i gasgliad ar ymateb priodol i gais y Cyngor ac unrhyw weithrediad pellach o fewn cyd-destun ei fframwaith penderfynu. Amcan yr adroddiad drwy grynhoi'r cefndir i'r penderfyniad

gwreiddiol ac adrodd ar y sefyllfa gyfredol yw rhoi cyfle i'r Cabinet ddod i gasgliad ar sut y dymunir ymateb.

12. DOGFENNAU CEFNDIR

Adroddiad Cabinet, 13 Mawrth 2018

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=2237&ver=4&>

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 12 Mehefin 2018
Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Gareth Thomas
Swyddog Cyswllt: Debbie Anne Williams Jones
Rhif Ffôn Cyswllt: 01286 679489
Teitl yr Eitem: 'Arolwg o'r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris'

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Gofynnir i'r Cabinet fabwysiadu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad er mwyn galluogi'r Adran Addysg i'w hymgorffori fel rhan greiddiol o brosesau ad-drefnu a weithredir ganddi ar y cyd â rhanddeiliaid eraill mewn dalgylchoedd eraill i'r dyfodol.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Comisiynwyd ymgyngorydd annibynnol i gynnal 'Arolwg o'r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau' er mwyn dysgu gwersi yn dilyn yr ad-drefnu a fu yn y dalgylch, ac yn arbennig yn sgil y ffaith fod ehangder a maint y cynllun hwn yn unigryw.
- 2.2 Roedd y comisiwn hefyd yn gyfle i gyfarch rhai pryderon ymysg cyn-aelodau o staff dalgylch Y Gader am rai agweddau o'r broses o sefydlu Ysgol Bro Idris.
- 2.3 Mae'r Adran Addysg yn derbyn yr holl argymhellion a nodir yn yr adroddiad 'Arolwg o'r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau'.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 3.1 Mae sefydlu ysgol yn newydd yn bartneriaeth rhwng yr Awdurdod a'r Corff Llywodraethu Cysgodol, sydd yn gorff llywodraethu statudol cyflawn.
- 3.2 Yn sylfaenol, yr Awdurdod sydd yn gyfrifol am y penderfyniad i agor ysgol a chyflawni adeilad parod, ac mae'r Awdurdod o dan ddyletswydd statudol i gyflawni hynny erbyn y dyddiad a gyhoeddir.
- 3.3 Y corff llywodraethol sydd yn gyfrifol am y camau i sicrhau fod yr ysgol mewn trefn a phennaeth wedi ei b(ph)enodi a strwythur staffio yn weithredol ar y diwrnod cyntaf.

- 3.4 Nid yw'r Awdurdod mewn sefyllfa i roi addewid na chynllun cadarn ymlaen am ffurf a rheolaeth ysgol newydd, gan y gall y Corff Llywodraethu Cysgodol neu'r Llywodraethwyr gyda'r Pennaeth, gyflwyno a mabwysiadu model amgen.
- 3.5 Cydnabyddir fod ysgol ddilydol aml-safle yn arwain at ragor o heriau yn sgil effaith trefniadau ar leoliad ffisegol disgyblion.
- 3.6 Ar gyfer comisiynu'r arolwg, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol rhwng yr ymgynghorydd a'r Pennaeth Addysg ac ynddo:
- i. Rhannwyd dogfennau perthnasol i'r arolwg;
 - ii. Cytunwyd ar weithredu yn y lle cyntaf gyda:
 - a) Phennaeth Ysgol Bro Idris
 - b) Cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd
 - c) Cadeirydd Llywodraethwyr Corff Cysgodol Ysgol Bro Idris
 - d) Arweinyddion y grŵp a ddaeth â chwynion yn erbyn yr Awdurdod.
 - iii. Cytunwyd y byddai'r arolwg yn dilyn ei gwrs ei hun er mwyn cael y wybodaeth fwyaf trylwyr posibl.
- 3.7 Isod, dymuna'r Adran Addysg dynnu sylw at rai paragraffau penodol yn yr adroddiad 'Arolwg o'r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau' a chywiro a/neu ddarparu rhagor o eglurder ar y materion hynny a ddyfynnir:

TUD	PARA	ADRODDIAD O'R DREFN O DDATBLYGU YSGOL BRO IDRIS	CYWIRIAD/EGLURDER PELLACH GAN YR ADRAN ADDYSG
4	3.2	<i>"...roedd rhyw deimlad y byddai ysgol newydd Bro Idris yn dynfa fawr i athrawon i ddod i ardal Dolgellau. Methwyd â rhagweld y broblem hon, ac roedd y cam cyntaf o hysbysebu pob swydd yn allanol gydag addewid o gyfweiliad i'r staff presennol heb roi llawn ystyriaeth i effaith seicolegol hyn ar weithlu presennol yr ardal yn anffodus, er na weithredwyd hynny yn y diwedd."</i>	Penderfyniad Corff Llywodraethol Cysgodol Ysgol Bro Idris oedd hysbysebu pob swydd yn allanol yn y lle cyntaf.
5	4.3	<i>"...nid oedd yr Awdurdod yn gwybod yr union niferoedd o ddisgyblion ymhob safle. Roedd hyn yn peri anhawster i roi arian gwarchodaeth mewn lle, ac anhawster, felly, i osod cyllideb ddrafft ar gyfer pob safle."</i>	Nid oedd niferoedd safleoedd yn effeithio ar sefyllfa gyllidol yr ysgol yn ei gyfanrwydd, ac ni fu iddo effeithio ar y safleoedd hynny ble roedd angen gwarchodaeth (Friog a Dinas Mawddwy). Roedd ansicrwydd niferoedd disgyblion ymhob safle yn effeithio niferoedd

			<p>staff oedd eu hangen ar y tri safle arall. Dyma oedd yn ei gwneud hi'n anodd sefydlu strwythur staffio a lleoliadau'r staff o fewn y gyllideb oedd ar gael.</p>
5	4.5	<p><i>“Un gwendid oedd diffyg gweledigaeth y Cyngor o'r hyn a olygir wrth Ysgol Ddilynol er mwyn sicrhau model er ystyriaeth ar gyfer y Corff Llywodraethu a'r ysgol.”</i></p>	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer dalgylch Dolgellau yn nodi:</p> <p><i>Gallai ysgol ddilynol ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gynnal ethos a gwerthoedd cyffredinol ar draws yr ysgol a dylai'r rhain ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu</i></p> <p><i>Gall ysgol bob-oedran hwyluso'r newid gan na fyddai'n golygu newid sefydliad rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd pan fo'r disgybl yn cyrraedd 11 oed.</i></p> <p>Serch hynny, mater i'r Corff Llywodraethu a'r ysgol oedd penderfynu ar sut i weithredu ar osod trefniadau ar gyfer model dewisedig Ysgol Bro Idris.</p>
9	7.5	<p><i>“Er bod yr Awdurdod o fewn ei hawliau i gau holl ysgolion y dalgylch a thrwy hynny ddiswyddo holl staff yr ysgolion, roedd yr undebau yn gyffredinol yn credu y dylai'r Awdurdod fod wedi dilyn rheol TUPE i benodi yn hytrach na'r drefn a ddefnyddiwyd. Wrth herio'r undebau ar hyn fe ofynnwyd iddynt a oedd pob athro yn gymwys i symud i swydd gyfatebol. Roedd y farn yn glir iawn ganddynt – nad oedd yr athrawon hyn o dan drefn medrusrwydd - ac felly doedd dim rheswm i beidio cynnig iddynt swydd gyfatebol.”</i></p>	<p>Nid oedd rheolau TUPE yn berthnasol, gan mai'r Awdurdod Lleol oedd y cyflogwr cyfreithiol ymhob achos, nid oedd newid yn hunaniaeth y cyflogwr ac felly nid oedd trosglwyddiad perthnasol at ddibenion y rheoliadau.</p>

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Wrth ystyried gweithredu'r argymhellion canlynol, mae angen cydnabod fod rôl arweiniol gan yr Awdurdod, ond hefyd rôl i gynghori mewn elfennau eraill. Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu y dyletswyddau statudol cyfochrog sydd angen eu gweithredu i agor y sefydliad.

4.2. Dyma'r argymhellion:

- Dylid gosod gweledigaeth ar gychwyn y broses o sefydlu Ysgol Ddilynol, ac yn arbennig o safbwynt datblygu'r 'ysgol ganol' er mwyn cael gwir werth ysgol Ddilynol.
- Dylid penodi Pennaeth Strategol yn gynnar iawn yn y broses, er mwyn galluogi'r Pennaeth, yr Awdurdod a'r Corff Llywodraethol i allu cydweithio ar weledigaeth yr Awdurdod.
- Dylid penodi Arweinydd Prosiect i fod yn gyfrifol am yr holl brosiect (o'i gychwyn i'w ddiwedd) sydd yn atebol i Fwrdd Rhaglen yr Awdurdod, i'r Corff Llywodraethol ac i'r holl randdeiliaid.
- Dylid sicrhau cydweithrediad agos rhwng yr Undebau proffesiynol, y pennaeth Strategol, y Corff Llywodraethol a'r Awdurdod i osod Strategaeth Staffio glir a buan yn y broses.
- Dylid sefydlu meini prawf clir a chwbl agored ar gychwyn y broses benodi fel nad oes unrhyw amwyster yn codi ymhellach ymlaen yn y broses.
- Dylid datblygu gwell trefn gyfathrebu fel bod yr holl randdeiliaid yn gwybod beth sydd yn digwydd (neu ddim yn digwydd sydd yr un mor bwysig).
- Dylid sylweddoli fod bygythiad i staff o golli eu swyddi yn fater difrifol a thrawmatig, a dylid cydnabod ac ymateb i hyn.
- Dylid cyfleu ymddiheuriad i gyn-benaethiaid dalgylch Dolgellau am yr hyn a nodwyd.
- Dylai Ysgol Bro Idris ddatblygu ymhellach y cyswllt rhwng B5/6 a BI 7/8 dros y blynyddoedd nesaf er mwyn datblygu egwyddorion Adroddiad Donaldson/Dyfodol Disglair yn fwy cadarn, a pherthnasu'n well i egwyddorion Ysgol Ddilynol.

Mae'r Adran Addysg yn derbyn yr holl argymhellion a nodir yn yr adroddiad '*Arolwg o'r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau*'. O fabwysiadu'r argymhellion, bydd modd yr Adran Addysg ar y cyd â rhanddeiliaid eraill yn eu hymgorffori fel rhan greiddiol o brosesau ad-drefnu a weithredir ganddi'n gyfochrog ac mewn partneriaeth mewn dalgylchoedd eraill i'r dyfodol.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Amherthnasol

5.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

“Fe gydnabyddir yn yr adroddiad fod y broses o sefydlu ysgol megis Bro Idris yn aml ochrog a chymhleth. Mae’n golygu cyd-gordio nifer o elfennau sylweddol a phrosesau statudol ac anstatudol yn arwain at agor drws y sefydliad newydd. Mae’n briodol adlewyrchu ar y prosiect er sicrhau fod gwersi sydd i’w dysgu yn cael eu hadnabod a bwydo i mewn i wella trefniadau’r dyfodol.”

ii. Y Pennaeth Cyllid:

“Tra’n derbyn swmp yr argymhellion fel gwersi i’w dysgu, gall ymarferoldeb ambell un bod yn aneglur. Er enghraifft, nid yw’r ail argymhelliad yn benodol am ystyr “yn gynnar iawn yn y broses”, ac i raddau rhaid i’r Awdurdod grisialu “gweledigaeth” am yr ysgol cyn hysbysebu am y pennaeth. Yn gyffredinol, ar wahân i benodi pennaeth mwy na 4 tymor ymlaen llaw i’r ysgol agor, cymeraf byddai gweddill yr argymhellion yn bosibl o fewn adnoddau cyfredol yr Adran Addysg a’r dalgylch perthnasol.”

ATODIAD 1

Adroddiad ‘Arolwg o’r drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris’.

Arolwg o'r Drefn o Ddatblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau

Gareth Williams

Ebrill 2018

Cynnwys:

1. Egwyddorion ar gyfer yr adroddiad	Tud 3
2. Rhagymadrodd	Tud 3
3. Cyffredinol	Tud 4
4. Cyfarfod Swyddogion Addysg	Tud 5
5. Egwyddorion Ysgol Ddilynol	Tud 6
6. Llywodraethiant yr Ysgol	Tud 7
7. Yr Undebau Llafur	Tud 9
8. Penaethiaid Cynradd Dalgylch y Gader	Tud 10
9. GYDCA	Tud 12
10. Athrawon yr ysgol	Tud 13
11. Disgyblion	Tud 15
12. Casgliadau	Tud 16
13. Argymhellion	Tud 18
Atodiad	Tud 19


1. EGWYDDORION AR GYFER YR ADRODDIAD

- 1.1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Gyngor Gwynedd er mwyn cyfarch rhai pryderon ymysg cyn-aelodau o staff dalgylch Y Gader am rai agweddau o'r broses o sefydlu Ysgol Bro Idris. Yn ystod y trafodaethau ynghylch briff y gwaith, fe wnaed yn eglur mai un o brif ddibenion y gwaith oedd dysgu gwersi o'r broses ar gyfer prosesau tebyg i'r dyfodol.
- 1.2 Adroddiad diduedd yw hwn ar y strwythur a ddefnyddiwyd ar gyfer datblygu Ysgol Bro Idris, Dolgellau.
- 1.3 Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda Phennaeth Addysg Cyngor Gwynedd gan nodi'r gofynion a'r disgwyliadau.
- 1.4 Yn fwriadol cadwyd y cyfarfod hwn yn fyr ac i'r pwynt fel nad oedd unrhyw ragfarnau yn cael eu bwydo o flaen llaw (25 munud).
- 1.5 Yn y cyfarfod cychwynnol hwn:
 - i. rhannwyd dogfennau perthnasol i'r ymchwiliad;
 - ii. cytunwyd ar weithredu yn y lle cyntaf gyda:
 - a. Phennaeth Ysgol Bro Idris;
 - b. Cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd;
 - c. Cadeirydd Llywodraethwyr Corff Cysgodol Ysgol Bro Idris;
 - ch. Arweinyddion y grŵp a ddaeth â chwynion yn erbyn yr Awdurdod.
- 1.6 Cytunwyd y byddai'r ymchwiliad yn dilyn ei gwrs ei hun er mwyn cael y wybodaeth fwyaf trylwyr posibl.

2. RHAGYMDRODD

- 2.1 Mae Ysgol Bro Idris yn ysgol newydd. Nid addasiad yw hi o Ysgol y Gader ac ysgolion Cynradd y Dalgylch.
- 2.2 Mae'r egwyddor hon yn hanfod pwysig iawn i bawb ei ddeall. Nid ysgol uwchradd ac yna lloerennau o ysgolion cynradd sydd yma ond UN YSGOL gyda safleoedd mewn chwe ardal ar draws yr ardal.
- 2.3 Mae strwythur rheolaethol yr ysgol wedi ei lunio i adlewyrchu hyn.

2.4 Dyma strwythur rheolaethol Ysgol Bro Idris:



2.5 Apwyntiwyd y Pennaeth Strategol i gychwyn yn Ionawr 2016, ac a gychwynnodd yn ei gwaith Ebrill 2016. Ei thasg gychwynnol oedd edrych ar strwythurau ysgolion tebyg mewn rhannau eraill o Gymru a thu hwnt cyn dod i benderfyniad ar strwythur rheolaethol Ysgol Bro Idris.

3. CYFFREDINOL

- 3.1 Bydd strwythur yr adroddiad hwn wedi ei seilio ar gyfraniad nifer o randdeiliaid gwahanol. Oherwydd hynny, bydd gorgyffwrdd barn yn digwydd rhwng y gwahanol randdeiliaid. Er y bydd hyn yn ailadroddus, mae'n bwysig bod dealltwriaeth o deimladau a barn gwahanol garfannau yn cael eu casglu a'u cofnodi.
- 3.2 Roedd diffyg ymwybyddiaeth ddigonol o sefyllfa staffio ysgolion yr ardal. Nid yw ardal Dolgellau yn dynfa fawr i athrawon i ddod i ddysgu yn yr ardal. Yn Ysgol Uwchradd Y Gader roedd trafferthion sylweddol i lenwi swyddi eisoes yn bodoli, ond roedd rhyw deimlad y byddai ysgol newydd Bro Idris yn dynfa fawr i athrawon i ddod i ardal Dolgellau. Methwyd â rhagweld y broblem hon, ac roedd y cam cyntaf o hysbysebu pob swydd yn allanol gydag addewid o gyfweiliad i'r staff presennol heb roi llawn ystyriaeth i effaith seicolegol hyn ar weithlu presennol yr ardal yn anffodus, er na weithredwyd hynny yn y diwedd.

- 3.3 Roedd nifer o broblemau wedi bodoli mewn rhai o ysgolion yr ardal a rhyw islais o staff heb weithredu'n ddigon estynedig. Er hyn, gyda newid yn arweinyddiaeth yr ysgolion, fe wnaeth yr athrawon godi i'r her, gan ddod â'r ysgolion o'r categorïau isel y buont ynddynt.
- 3.4 Roedd diffyg dealltwriaeth o sawl cyfeiriad ac nid oedd cydnabyddiaeth digonol o'r:
- i. gwaith caled yr oedd staff ysgolion y dalgylch wedi ei wneud yn dilyn arweiniad cadarn yn yr ysgolion;
 - ii. effaith negyddol gwirioneddol o'r penderfyniad gwreiddiol i beidio corlannu'r swyddi gan benderfynu hysbysebu'n allanol; (Fe newidiwyd hyn ond roedd y drwg wedi ei wneud ac fe arweiniodd at lawer o densiynau rhwng y staff a llywodraethiant yr ysgol newydd ac effaith y penderfyniad hwn ar forâl y gweithlu).
 - iii. ffaith nad oedd yr ardal yn dynfa i ddewisiadau eang o ymgeiswyr am swyddi.

4. CYFARFOD SWYDDOGION ADDYSG

- 4.1 Yn y cyfarfod gyda'r Swyddogion Addysg perthnasol, fe gytunwyd bod yr ALI wedi dilyn y strwythurau ad-drefnu'n dechnegol gywir.
- 4.2 Roedd rhai materion nad oedd yr Awdurdod wedi eu rhagweld, er enghraifft, roedd disgygliad i ddisgyblion o'r ysgolion cynradd a oedd yn cau i fynychu'r safleoedd a nodwyd gan Ysgol Bro Idris. Ni ddigwyddodd hynny; roedd rhai rhieni o'r ysgolion a gaewyd yn dewis anfon eu plant i sefydliadau gwahanol i argymhelliad Ysgol Bro Idris.
- 4.3 O ganlyniad, nid oedd yr Awdurdod yn gwybod yr union niferoedd o ddisgyblion ymhob safle. Roedd hyn yn peri anhawster i roi arian gwarchodaeth mewn lle, ac anhawster, felly, i osod cyllideb ddrafft ar gyfer pob safle.
- 4.4 Nododd y swyddog ei fod o'r farn y byddai wedi bod yn werthfawr cael yr Undebau i mewn yn y trafodaethau o'r cychwyn cyntaf. Fe fyddai hyn wedi lliniaru llawer ar y problemau a amlygwyd yn hwyrach yn y broses. Er hyn pwysleisir bod y strwythurau a gymerodd yr ALI yn rhai technegol gywir.
- 4.5 Un gwendid oedd diffyg gweledigaeth y Cyngor o'r hyn a olygir wrth Ysgol Ddilynol er mwyn sicrhau model er ystyriaeth ar gyfer y Corff Llywodraethu a'r ysgol
- 4.6 Llwyddwyd i leihau niferoedd y safleoedd cynradd o wyth i bump. Roedd yr ymarferiad hwn wedi bod yn destun trafodaeth ac ymgynghori ers 2010, ond prin yr adeg honno oedd yr ystyriaeth i ysgol ddilynol. Y methiant yn yr ymarferiad cyfredol oedd perthnasu'r adrefnu i egwyddorion ysgol ddilynol.

- 4.7 Fe fethwyd a phenodi Pennaeth i Ysgol Bro Idris yn dilyn yr hysbyseb cyntaf. Yn dilyn yr ail hysbyseb fe lwyddwyd i benodi, ond roedd misoedd o amser wedi ei golli a'r ysgol heb arweiniad proffesiynol.
- 4.8 Gofynnodd y Corff Llywodraethol Cysgodol am Arweinydd Prosiect Lefel Uchel i arwain y prosiect hwn. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i'r prosiect, nid oedd hwn ar lefel digon uchel i wneud penderfyniadau strategol nac i arwain a chynnal y cyfathrebu rhwng yr Awdurdod, staff a rhieni fel bod teimlad o sicrwydd yn bodoli wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

ARGYMHELLION:

- Dylai'r Awdurdod greu dyraniad ddrafft yn fuan iawn yn y broses fel bod modd sicrhau strwythur staffio a gosod cyllideb gytbwys yn fuan.
- Dylai'r Awdurdod feddu ar weledigaeth gliriach o egwyddorion Ysgol Ddilynol ar gyfer y dyfodol.
- Dylid penodi Arweinydd Prosiect i fod yn gyfrifol am yr holl brosiect (o'i gychwyn i'w ddiwedd) sydd yn atebol i Fwrdd Rhaglen yr Awdurdod, ac yn cydweithredu efo'r CLI a'r holl randdeiliaid.

5. EGWYDDORION YSGOL DDILYNOL

- 5.1 Beth yw egwyddorion ysgol ddilynol? Meddai Vanessa Williams, Cyfarwyddwraig Ark Schools a sylfaenydd King Solomon's (all through) Academy:

"I think the biggest advantage is about having a shared philosophy and ethos which ensures that there is greater consistency around expectations, pedagogy and the cultural ethos of the school"

- 5.2 Noda erthygl gan yr Independent:

"Many educationalists favour this model of schooling because it eliminates any unsettling transition between the primary and secondary stages. Having all ages on site also enables older pupils to act as mentors for younger children, while primary pupils benefit from having specialist science and language available and sharing sports facilities that stand-alone primaries can only dream about."

- 5.3 Gellid yma ddyfynnu llawer iawn am egwyddorion ysgolion dilynol, ond yn sylfaenol y cyfnod 9-13 oed yw un o'r cyfnodau mwyaf allweddol ym mywyd addysgiadol disgyblion. Nid wyf o'r farn bod digon o ymchwil wedi ei wneud er mwyn gosod cyfeiriad a gweledigaeth ar gyfer sefydlu'r Ysgol Bro Idris

- 5.4

- 5.4 Ar wahân i'r cyfnod 0 i 3 oed, yn y cyfnod 9 i 13 oed y gwelir y newidiadau mwyaf mewn person. Mae yma newid emosiynol a chorfforol rhyfeddol, ond mae'r system addysg yn hollti gyrfa disgyblion i ddau strwythur a threfn wahanol.
- 5.5 Mae dadl wirioneddol gryf i ddod ag addysg y disgyblion hyn – blynyddoedd 5/6/7ac 8 - yn llawer nes at ei gilydd er mwyn atal y cwmp mewn safonau ac ymddygiad wrth drosglwyddo o'r 'cynradd' i'r 'uwchradd'.
- 5.6 Yn sylfaenol, fel yr awgrymodd un o'r undebau athrawon, y cwbl sydd wedi digwydd yw bod strwythur un wisg ysgol gydag un pennaeth, ond yn gweithredu fel un ysgol uwchradd a pum ysgol gynradd.
- 5.7 Yn dilyn ei phenodiad fe geisiodd Pennaeth Strategol Ysgol Bro Idris gael disgyblion B5 a B6 i sefydlu dan yr un to a gweddill yr adran uwchradd. Cafwyd cryn wrthwynebiad gan nad oedd cyfeirio at hyn yn yr ymgynghoriad wrth sefydlu Ysgol Bro Idris.
- 5.8 Llwyddwyd i gael cyfaddawd gan y Pennaeth drwy sicrhau fod B6 yn treulio un diwrnod yr wythnos yn yr adran uwchradd ond mae hyn yn parhau ymhell o wir egwyddorion Ysgol Ddilynol. Er hyn mae'n ddiddorol gweld barn y disgyblion B5 a B6 ar hyn yn adran 12 o'r adroddiad hon.

ARGYMHELLION:

- Dylai'r Awdurdod feddu ar weledigaeth gliriach o egwyddorion Ysgol Ddilynol ar gyfer y dyfodol. (Yn unol â'r argymhelliad yn Adran 4.)

6. LLYWODRAETHIANT YR YSGOL

- 6.1 Sefydlwyd Corff Llywodraethol Cysgodol i baratoi ar gyfer yr ysgol newydd. Roedd cyfanswm o 20 aelod ar y CLI Cysgodol, a'r corff yn cael ei wasanaethu'n gadarn gan Swyddog Addysg Ardal Cynorthwyol.
- 6.2 Yn ychwanegol fe drefnwyd bod penaethiaid y dalgylch hefyd yn aelod o'r Bwrdd Cysgodol hyd nes y byddai Pennaeth Strategol yn cael ei benodi i'r swydd.
- 6.3 Pan benodwyd y Pennaeth Strategol daeth pwysau o gyfeiriad penaethiaid y dalgylch i barhau ar y Bwrdd. Cytunwyd i hynny ond fel sylwedyddion yn unig.
- 6.4 Roedd y Bwrdd Llywodraethol yn hynod glogyrnaidd gyda hyd at 20 llywodraethwr, y pennaeth strategol, a'r penaethiaid fel sylwedyddion. Teimlad y llywodraethwyr a holwyd oedd bod y Corff hwn yn llawer rhy

drwsogl, ac yn sgil hynny, bod cyflawni datblygiadau strategol yn hynod anodd. Nodwyd bod teimlad fod y corff yn gweithredu fel “cyfarfod cyhoeddus.”

- 6.5 Roedd y CLI yn fuan iawn yn y broses, a chyn penodi Pennaeth Strategol, eisiau Arweinydd Prosiect o statws uchel i symud y gwaith yn ei flaen. Cafwyd ymdrechion i wneud hyn, ond byr iawn oedd eu parhad ac nad oeddent o bosib gyda statws digonol.
- 6.6 Gan fod hwn yn brosiect mor fawr ac mor newydd i'r Awdurdod fe ddylid fod wedi penodi Arweinydd Prosiect ar gychwyn y prosiect er mwyn:
- i. Lleihau baich ar y Corff Llywodraethol.
 - ii. Creu strwythur cyfathrebu agored rhwng yr Awdurdod, y CLI a holl staff yr holl ysgolion.
 - iii. Hwyluso gwaith strategol y Pennaeth Strategol gan ei bod wedi gorfod datblygu holl weledigaeth a strategaeth yr ysgol heb unrhyw dim rheoli.
 - iv. Sicrhau bod y prosiect yn datblygu'n fwy esmwyth.
- 6.7 Wrth benderfynu ar strwythur penodi staff cafwyd cynnig gwreiddiol i hysbysebu pob swydd yn allanol. Ond yn dilyn llawer o wrthwynebiadau, fe newidiwyd hyn i benodi yn fewnol os yn bosibl.
- 6.8 Er bod y CLI wedi gwneud y penderfyniad am y rhesymau cywir o geisio cael y staff gorau posib i weithio yn yr ysgol newydd, fe achoswyd cryn ddrwgdeimlad ymysg staff y dalgylch. Nid oedd ardal Dolgellau yn dynfa naturiol i gael staff. Roedd yr uwchradd mewn rhai disgyblaethau eisoes wedi cael trafferthion mawr i benodi yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Roedd disgyn yn ôl ar benderfyniad yn rhoi arfau i wrthwynebwyr yr ysgol a oedd yn barod i nodi gwendid y llywodraethiant.
- 6.9 Cesglir:
- i. Bod Cadeirydd y CLI wedi gwneud gwaith arbennig yn llwyddo i gael strwythurau mewn lle mewn sefyllfa hynod anodd.
 - ii. Ni ddylai'r holl benaethiaid fod wedi bod yn sylwedyddion ond eu bod wedi ethol un i'w cynrychioli. Roedd y grŵp hwn yn hynod ddylanwadol ac yn rhwystr i, ac yn tanseilio statws y pennaeth strategol.
 - iii. Oherwydd maint y CLI a'i sylwedyddion fe ddylid bod wedi cael is banel strategol er mwyn cefnogi gwaith y Pennaeth Strategol i osod strwythur i'r ysgol gan fod hyn yn hanfodol ar gyfer gosod niferoedd staff a strwythur rheolaethol i'r ysgol.

7. YR UNDEBAU LLAFUR

- 7.1 Barn yr Undebau Athrawon oedd y ffaith nad oedd ymgynghori digonol ar strwythur staffio yn Ysgol Bro Idris.
- 7.2 Roedd beirniadaeth lem gan yr undebau am drefn gyfathrebu rhwng sefydliad Bro Idris, yr undebau a'r athrawon.
- 7.3 Roedd y tri undeb yn feirniadol iawn o'r diffyg gwybodaeth i'r athrawon ac roedd hyn yn creu ansicrwydd a phryder diangen. Nododd un undeb ei bod yn hanfodol gadael i staff wybod beth oedd yn digwydd:

“Doedd dim gwybodaeth gan yr awdurdod, y llywodraethwyr na’r Pennaeth Strategol i’r undebau...

Hyn yn arwain at sibrydion , yn aml yn ddi-sail, oherwydd y diffyg cyfathrebu...

Y staff yn barhaus “yn y niwl”

Roedd y cyfarfodydd gyda’r swyddogion addysg yn ansensitif tuag at sefyllfa argyfyngus y staff.

Roedd trefn adborth yn dilyn cyfweiliadau yn anghyson (er bod arweiniad wedi ei roddi i’r ysgol). Roedd angen i hyn fod wedi ei sefydlu ar gychwyn y broses.”

- 7.4 Nododd yr undebau fod yr Awdurdod wedi colli cyfle, er nad oedd angen cyfreithiol i wneud hynny, i gynnig ymddeoliad buan i staff, gan y byddai hyn wedi lliniaru rhywfaint ar y pryderon.
- 7.5 Er bod yr Awdurdod o fewn ei hawliau i gau holl ysgolion y dalgylch a thrwy hynny ddiswyddo holl staff yr ysgolion, roedd yr undebau yn gyffredinol yn credu y dylai'r Awdurdod fod wedi dilyn rheol TUPE i benodi yn hytrach na'r drefn a ddefnyddiwyd. Wrth herio'r undebau ar hyn fe ofynnwyd iddynt a oedd pob athro yn gymwys i symud i swydd gyfatebol. Roedd y farn yn glir iawn ganddynt – nad oedd yr athrawon hyn o dan drefn medrusrwydd - ac felly doedd dim rheswm i beidio cynnig iddynt swydd gyfatebol.
- 7.6 Roedd diffyg gwybodaeth am feini prawf cytunedig o safbwynt penodi staff. Er enghraifft pa ganran o'r meini prawf oedd yn mynd at:
- i. Allu mewn addysgu;
 - ii. Safonau gwaith disgyblion;
 - iii. Y cyfweiliad proffesiynol;
 - iv. Y cyfweiliad llawn.

- 7.7 Roedd un undeb yn cymharu strwythurau sefydlu Bro Idris gyda dwy ysgol yng Ngwynedd, yn ogystal â sefydliadu dilynol mewn rhannau eraill o Gymru. Nodwyd gan yr undeb fod problemau Bro Idris yn llawer mwy cythryblus oherwydd y diffygion cyfathrebu ynghyd â'r diffyg gweledigaeth.
- 7.8 Mewn cyfathrebiad rhwng un undeb a'r Pennaeth Strategol/CLI nodwyd bod y drefn benodi wedi bodoli ers 5 mis cyn cael cyfarfod wyneb yn wyneb.
- 7.9 Nododd y tri undeb nad oedd strwythur o "ring fencing/cylch gwarchod" wedi digwydd o'r cychwyn, ac roedd un undeb yn nodi bod sibrydion rheolaidd yn dod yn ôl bod ymdeimlad o "new school – new staff" yn bodoli. Roedd hyn yn creu ansicrwydd a phryder pellach i ddyfodol y staff.

ARGYMHELLION:

- Dylid dwyn yr undebau proffesiynol i mewn ar gychwyn y broses.
- Dylid sefydlu meini prawf clir a chwbl agored ar gychwyn y broses benodi fel nad oes unrhyw amwyster yn codi ymhellach ymlaen yn y broses.
- Dylid dangos llawer mwy o gydymdeimlad tuag at staff oedd mewn cryn bryder ynglŷn â'u dyfodol.
- Dylid sicrhau cyfathrebu rheolaidd rhwng yr Awdurdod/ysgol gyda'r holl staff er mwyn sicrhau trefn agored.

Er gwybodaeth ychwanegol: gofynnwyd am gyfarfod gydag undeb UNSAIN ond ni ddaeth yr undeb hwn yn ôl mewn ymateb i'r cais.

8. PENAEITHIAID CYNRADD DALGYLCH Y GADER

- 8.1 Cafwyd cyfarfodydd gyda phedwar o gyn-benaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch. Roedd eu barn yn ar y cyfan yn gyson:
- i. Roedd diffyg gweledigaeth gan yr Awdurdod am ysgol gydol oes. Doedd dim byd yn eglur.
 - ii. Roedd diffyg "cylch gwarchod" swyddi wedi creu'r teimlad o ddibrisio staff oedd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth a rhai wedi gweithio yn hynod o galed i gael ysgolion allan o fesurau Estyn.
 - iii. Roedd ansicrwydd mawr o ba swyddi oedd ar gael ac felly yn ei gwneud yn anodd iawn i staff wybod am ba swyddi i fynd amdanynt. Nid oedd swydd ddisgrifiadau ar gael yn ddigon buan ac nid oeddynt yn ddigon eglur. Roedd angen criteria penodi cliriach. Gan nad oedd yr Awdurdod na'r Pennaeth/CLI wedi dangos cydymdeimlad tuag at y staff, a'r

undebau heb fod yn rhan o osod strwythur staffio, roedd penaethiaid cynradd y dalgylch yn teimlo eu bod hwy wedi gorfod gwarchod y staff.

- iv. Roedd rhai o'r penaethiaid yn gweld gwerth i uno B5/6/7 ac 8 ond nid oedd eraill yn rhannu'r un farn. Roedd y gwrthwynebiad yn deillio o'r ffaith nad oedd hyn yn rhan o'r weledigaeth wreiddiol. Wrth i'r ysgol geisio newid hyn a dwyn B5 a B6 i weithio yn yr adran uwchradd, roedd diffyg cyfathrebu digon manwl ar gyfer y gwahanol randdeiliaid drwy esbonio rhesymeg, pwrpas a manteision y newid hwn.
- v. Roedd un pennaeth yn teimlo fod rhai o'r staff yn gwrthod derbyn unrhyw newidiadau. Roedd hyn yn arwain at negyddiaeth tuag at Ysgol Bro Idris.
- vi. Roedd cyfathrebu gyda'r staff yn wan.
- vii. Dangoswyd gan rai o'r penaethiaid gydymdeimlad mawr tuag at y Pennaeth Strategol a'r CLI gan eu bod wedi gorfod gweithredu heb gefnogaeth.
- viii. Roedd teimladau cryf yn erbyn y ffaith fod y Cyngor Ysgol yn rhan o'r broses benodi, gan fod canran uchel o staff y dalgylch yn cael eu cyfweld a nifer, yn naturiol yn cael eu gwrthod. Er nad oedd neb yn erbyn yr egwyddor o ymwneud y Cyngor Ysgol, roedd sefyllfa Bro Idris yn hynod sensitif, yn fewnol yn yr ysgol ac allan yn y gymuned. Roedd teimlad fod rôl y disgyblion yn anffodus mewn sefyllfa mor sensitif.
- ix. Roedd gwerthfawrogiad cyffredinol i'r Cwrs ar gyfer Newid gan Adran Adnoddau Dynol Gwynedd ond fe nodwyd na ddaeth ond pedwar llywodraethwr i'r cwrs hwn.

8.2 Cesglir:

- i. Bod y cyfathrebu wedi bod yn wan.
- ii. Nad oedd gweledigaeth ddigon eglur o bwrpas ysgol ddilynol.
- iii. Bod angen criteria mwy cadarn ar gyfer penodi staff.
- iv. Bod diffyg "Cylch Gwarchod" ar y cychwyn wedi creu llawer o ddrwgdeimlad.
- v. Bod rhai aelodau o staff yn gwrthod derbyn bod newid yn mynd i ddigwydd.

9. GYDCAⁱ

- 9.1 Cododd sefyllfa yn dilyn cyfarfod o'r GYDCA ar 16.03.16.

- 9.2 Dyma'r cofnod a arweiniodd at gryn densiynau rhwng yr Awdurdod a phenaethiaid ysgolion cynradd Y Gader:

“Fel rhan o’r eitem moderneiddio Ysgolion cafwyd sylw gan un Undeb yn benodol am y broses penodi a ddigwyddodd ym Mro Idris, ac yn benodol y defnydd o gyngor disgyblion yn y broses. Cytunodd Pennaeth y Ganllwyd i ganfod barn holl staff y Dalgylch am y broses ad-drefnu ar gyfer trafodaeth bellach yn y GYDCA tymor yr Haf. Bydd angen anfon y sylwadau at Mai Bere cyn y cyfarfod.” 16.03.16

Yn y cyfarfod hwn roedd cynrychiolaeth gref o swyddogion yr Awdurdod ond ni nodwyd unrhyw wrthwynebiad i hyn yn y cofnodion.

- 9.3 Fe weithredodd penaethiaid y Gader drwy lunio holiadur i’r staff dysgu. Cesglir y canlynol o’r holiadur:

- i. roedd llawer o wybodaeth ddefnyddiol ynddo;
- ii. cafwyd sylwadau yn ogystal ag atebion i’r cwestiynau;
- iii. cafwyd ymateb gan gynrychiolaeth dda o staff dysgu’r dalgylch;
- iv. nid oedd y cwestiynau wedi eu llunio’n wyddonol ac roedd rhai o’r cwestiynau yn rhai caeedig iawn;
- v. roedd camgymeriad wedi ei wneud gan y penaethiaid gan nodi mai ar ran Ffederasiwn Penaethiaid Gwynedd y lluniwyd yr holiadur yn hytrach nag ar gais y GYDCA.

- 9.4 Arweiniodd y cymal olaf hwn at gryn densiynau gyda llythyr ffurfiol gan yr Awdurdod i sylw Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Ffederasiwn.

- 9.5 Mae atebion y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn gadarn iawn yn nodi nad oedd gan y Ffederasiwn unrhyw ran yn y mater hwn.

- 9.6 Roedd penaethiaid y Gader wedi gwneud camgymeriad drwy nodi yn yr holiadur:

‘Gwahoddwyd adroddiad ar ad-drefnu yn Nalgylch y Gader gan Ffederasiwn Penaethiaid Gwynedd...’

ac fel y nododd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Ffederasiwn yn eu hateb i’r Awdurdod:

“Mae’r teitl yn anghywir. Fe ddylai ddarllen:

‘Gwahoddwyd adroddiad ar ad-drefnu yn Nalgylch y Gader gan y GYDCA’”

- 9.7 Mae’n deg nodi fod y llythyr gan yr Awdurdod at Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Ffederasiwn yn un a achosodd llawer o waith diangen i’r ddau bennaeth i ateb y cwestiynau a godwyd.

- 9.8 Yr unig gwestiwn a ddylid fod wedi ei ofyn i'r Ffederasiwn oedd: "Pa ran oedd gan y Ffederasiwn yn y broses hon gyda Phenathiaid y Gader?" Byddai hynny wedi arbed llawer o waith i'r Awdurdod ac i swyddogion y Ffederasiwn.
- 9.9 Cesglir bod natur y llythyr i'r Ffederasiwn ac a rannwyd gyda chynrychiolwyr pob dalgylch yn anffodus ei donyddiaeth ac wedi creu gwir ddrwgdeimlad diangen ar ran nifer o benathiaid y dalgylch.
- 9.10 Cesglir mai mater trafodaeth rhwng yr Awdurdod a'r GYDCA ddylai fod wedi digwydd nid honiadau/ensyniadau yn erbyn y Ffederasiwn.
- 9.11 Cesglir fod camgymeriadau o'r ddwy ochr, a gellir dadlau fod yr holiadur yn anwyddonol ei naws, ond roedd ynddo hefyd wybodaeth werthfawr am farn y staff dysgu.
- 9.12 Cesglir hefyd fod yr Awdurdod wedi bod yn hynod o lawdrwm ac yn orfeirniadol ar gais syml i gael gwybodaeth am deimladau staff y dalgylch.

ARGYMHELLION:

- Dylid sicrhau dealltwriaeth nad un unigolyn ond grŵp o benathiaid oedd yn gyfrifol am yr holiadur.
- Dylai'r Awdurdod gyfleu ymddiheuriad i gyn-benathiaid dalgylch Y Gader am yr hyn a nodwyd.

10. ATHRAWON YR YSGOL

- 10.1 Cynhaliwyd cyfarfod byr gyda holl athrawon Ysgol Bro Idris i'w gwahodd i roi eu barn ar:
- i. Sut fydddech chi'n awgrymu ffyrdd i'r Awdurdod wella eu proses o sefydlu ysgol newydd fyddai wedi hwyluso eich sefyllfaoedd chi?
 - ii. Sut mae Ysgol Bro Idris wedi sefydlu ar ôl tymor o waith?
- 10.2 Derbyniwyd naw ymateb mewn llythyr - pedwar drwy e-bost a sgwrs gyda thri athro arall, sef cyfanswm o 15.
- 10.3 Yn gyffredinol roedd sylwadau am y cyfnod cyn agor yr ysgol yn swyddogol yn eithaf tebyg i'w gilydd:
- i. Roedd y cyfnod yn hirwyntog ac yn hynod bryderus i'r staff a'u teuluoedd. Roedd angen cychwyn y broses yn llawer cynt fel bod popeth yn ei le ymhell cyn i'r ysgol agor.
 - ii. Roedd diffyg gwybodaeth reolaidd a diffyg trefn cyfathrebu. Roedd

rhai rhanddeiliaid yn gwybod mwy nag eraill o beth oedd yn digwydd.

- iii. Roedd diffyg strwythur staffio eglur ac felly'r athrawon yn methu penderfynu am ba swyddi i fynd amdanant.
- iv. Roedd trefn o hysbysebu swyddi yn allanol (pan fethwyd penodi'n Fewnol) yn tanseilio hyder y staff ac yn ychwanegu at eu pryder.
- v. Diffyg cyllid o'r cychwyn i drefnu cludiant i ddisgyblion a staff i symud Safleoedd.

Cesglir bod barn yr athrawon yn cyd-fynd i raddau helaeth iawn gyda barn rhanddeiliaid eraill.

10.4 O safbwynt y ffordd y mae Ysgol Bro Idris wedi datblygu dros y tymor cyntaf, mae yma sylwadau proffesiynol a chytbwys gan y 15 aelod a gyfrannodd at yr ymchwiliad:

- i. Roedd teimlad bod y tymor cyntaf wedi bod yn dymor anodd a thrwm ond bod yr ysgol wedi sefydlu'n dda erbyn cychwyn yr ail dymor.
- ii. Roedd teimlad bod ymweliadau wythnosol B6 wedi bod yn hynod lwyddiannus a'r angen i ddatblygu hyn ymhellach.
- iii. Roedd yma deimlad fod "un ysgol" wedi datblygu yn hynod effeithiol.
- iv. Mae'r disgyblion yn ymddangos yn hynod hapus yn yr ysgol.
- v. Pwyslais effeithiol ar waith y Cyngor Ysgol

10.5 Er hyn mae angen i'r ysgol edrych ar:

- i. Cyfathrebu rhwng y chwe safle sydd yn her wirioneddol. Dylid ystyried datblygu ymhellach y systemau technolegol i sicrhau cysondeb gwybodaeth.
- ii. Roedd teimlad fod yr UDRh yn drwm o safbwynt y cynradd, a bod diffyg dealltwriaeth lawn o anghenion cyrsiau CBAC, ariannu adrannol ac yn y blaen. Roedd un awgrym i benodi Swyddog Arholiadau i weithredu strwythurau CBAC.
- iii. Roedd ymdeimlad fod y cynradd yn cael llawer mwy o amser cynllunio na'r uwchradd er bod y staff yn sylweddoli bod y 5 safle cynradd yn

hynod anodd ar gyfer cynllunio cyffredin. Er hyn roedd angen cyfleoedd hefyd i gynllunio rhwng B5/6 a B7/8.

- iv. Roedd ymdeimlad cyffredinol nad oedd y drefn Technoleg Gwybodaeth a thracio yn ddigon effeithiol a bod diffygion i gefnogi'r dechnoleg yn creu pryderon.
- v. Nodwyd gan un athro nad oedd gweledigaeth yr ysgol yn ddigon eglur a bod diffyg gwybodaeth ar gyfer polisiau ymddygiad a pholisi iaith.
- vi. Oherwydd sefyllfa 6 safle nid yw arbenigeddau'r athrawon cynradd yn cael eu defnyddio i'r eithaf

ARGYMHELLION:

- Dylai'r UDRh gynnal sesiynnau 1:1 gyda staff gan gychwyn gyda phenaethiaid adran fel bod cyd-ddealltwriaeth glir o anghenion yr adrannau.
- Dylid ystyried cyd-gynllunio rhwng athrawon B5/6 ag athrawon B7/8 fel bod gwir fantais Ysgol Ddilynol yn cael ei gwireddu .

11. DISGYBLION

- 11.1 Ymwelwyd â thri safle cynradd ble roedd 6 ysgol wedi cau ac wedi sefydlu yn dri safle cynradd.
- 11.2 Pwrpas yr ymweliad oedd:
 - i. Gweld sut roedd y disgyblion wedi setlo yn eu safleoedd newydd
 - ii. Sut oedd y cyswllt gyda'r safle uwchradd yn datblygu
- 11.3 Roedd y disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau yn y safleoedd newydd, ac er eu bod yn datgan ychydig o hiraeth am eu hen ysgol, roeddent yn amlwg iawn yn mwynhau'r profiad newydd o weithio gyda mwy o blant, a phlant o ardaloedd gwahanol i'w pentrefi hwy.
- 11.4 Roedd disgyblion B6 yn eithriadol frwdfrydig dros gael gwersi yn y safle uwchradd. Roeddent yn mynychu safle'r uwchradd bob dydd lau ac roeddent yn hynod frwdfrydig wrth siarad am eu profiad. Roeddent yn derbyn gwersi mewn Ffrangeg, Technoleg, Addysg Gorfforol a Gwyddoniaeth. Roedd awch ganddynt i fynd yn amlach i'r uwchradd.
- 11.5 Roedd B5, yn benodol yn y safleoedd llai o ran niferoedd, yn fwy nerfus ond yn wirioneddol awyddus i gael mynd i'r uwchradd yn yr un modd a B6.

Roeddent yn gweld brwdfrydedd B6 ac yn barod i fynd y flwyddyn nesaf. Gofynnodd sawl disgybl B5 am gael mynd yn syth eleni gyda B6 ar y dyddiau lau.

- 11.6 Nododd un disgybl B6 ei fod yntau yn pryderu cyn mynd y tro cyntaf rhag ofn iddynt “fynd ar goll”, ond buan iawn y daeth y profiad yn un i edrych ymlaen ato’n wythnosol.
- 11.7 Nododd un pennaeth safle fod pob rhiant i B6 yn eu safle hwy wedi datgan eu gwerthfawrogiad llawn o’r cyfle yr oedd eu plant yn eu cael wrth gael profiadau uwchradd bob dydd lau.
- 11.8 Cesglir, er hyn mae nifer fechan iawn o rieni yn parhau i wrthwynebu’r cyfle i B6 fynd i’r uwchradd, ond bychan iawn yw’r niferoedd hyn. Fe ddylai “peer pressure” o gyfeiriad y plant leihau’r tensiwn hwn dros amser.

ARGYMHELLION:

- Dylai’r Awdurdod feddu ar weledigaeth gliriach o egwyddorion Ysgol Ddilynol, yn arbennig o safbwynt datblygu’r ‘ysgol ganol’ er mwyn cael gwir werth Ysgol Ddilynol.
- Dylai Ysgol Bro Idris ddatblygu ymhellach y cyswllt rhwng B5/6 a B7/8 dros y blynyddoedd nesaf er mwyn datblygu egwyddorion Adroddiad Donaldson/Dyfodol Disglair yn fwy cadarn, a pherthnasu’n well i egwyddorion Ysgol Ddilynol.

12. CASGLIADAU

- 12.1 Ymysg swyddogion yr Awdurdod roedd gwir ansicrwydd pwy oedd yn wir gyfrifol am ddatblygu Ysgol Bro Idris fel ysgol ddilynol. Er bod nifer o swyddogion yn ymwneud â gwahanol agweddau o’r prosiect, ‘doedd dim un person gyda gwir gyfrifoldeb a threfn atebolrwydd. Wrth holi, roedd yn amlygu nad oedd neb â gwir ddealltwriaeth o egwyddorion llawn Ysgol Ddilynol. Yn hytrach roedd yn ymddangos fel mwy o brosiect ar gyfer cau nifer o ysgolion bychan yn y dalgyrch.
- 12.2 Yn sgil y diffyg arweiniad yn ogystal â diffyg gweledigaeth rhoddwyd pwysau trwm iawn ar y Corff Llywodraethol (cysgodol)
- 12.3 Wedi penodi Pennaeth Strategol, rhai misoedd i mewn i’r broses, bu rhaid i’r person hwn wneud yr ymchwil i egwyddorion ysgol ddilynol, ond roedd hyn yn llawer rhy hwyr yn y broses. Gan fod y Pennaeth Strategol yn awyddus i

ddwyn B5 a B6 fwyfwy i'r safle uwchradd fel rhan naturiol o Ffes 2, cafwyd gwrthwynebiadau gan nad oedd hyn yn y cynlluniau gwreiddiol.

- 12.4 Roedd penderfyniad y CLI Cysgodol i hysbysebu yn agored i'r byd (ac yna newid barn) wedi creu drwgdeimlad ymysg staff y dalgylch gan greu teimlad ymysg y staff o ddiffyg gwerth ynddynt fel athrawon.
- 12.5 Dangoswyd diffygion yn y gefnogaeth emosiynol i staff y dalgylch. Rhoddwyd gwybodaeth am y drefn yn gywir ac yn eglur, ond nid oedd dilyniant i hyn, gyda chefnogaeth i deimladau staff oedd gyda phosibilrwydd cryf iawn o golli eu swyddi.
- 12.6 Er hyn roedd staff Adnoddau Dynol yr Awdurdod wedi gwneud llawer o waith a gafodd ei werthfawrogi wrth iddynt gynorthwyo a pharatoi staff ar gyfer cyfweiliadau. Gan mai staff Adnoddau Dynol oedd yn wynebu staff yn eu rôl o'u datblygu ar gyfer cyfweiliadau, hwy hefyd, ar yr adeg yma, oedd unig wyneb cyhoeddus yr Awdurdod. Roedd hyn yn annheg ar staff Adnoddau Dynol.
- 12.7 Roedd diffygion yn argaeledd y Strwythur Staffio ar gychwyn y broses. Roedd y staff yn ansicr wrth ystyried ymgeisio am swyddi gan nad oedd yr holl strwythur wedi ei rannu gyda hwy. Roedd hyn yn ychwanegu at yr ansicrwydd ymysg y staff.
- 12.8 Cadwyd yr undebau proffesiynol hyd braich o'r broses benodi. Ni fu trafodaeth ar hyn gyda'r undebau am rai misoedd. Roedd hyn yn gamgymeriad gan y byddai cydweithio gyda'r undebau wedi atal llawer o broblemau yn nes ymlaen yn y broses.
- 12.9 Roedd diffyg criteria eglur o'r drefn benodi. Roedd ymweliad i arfarnu'r addysgu ac roedd trefn cyfweld. Er hyn, doedd neb o'r ymgeiswyr yn sicr faint o bwysoliad oedd ar arfarnu'r addysgu, a faint oedd ar y cyfweliad. Ni roddwyd ystyriaeth i ansawdd gwaith disgyblion. Roedd angen rhoi % sgôr ar gyfer y 4 maes yma.
- 12.10 Roedd cyfathrebu rhwng yr Awdurdod / CLI a'r gwahanol randdeiliaid yn fater i gael sylw. Dyma ble fyddai Arweinydd Prosiect wedi gwneud gwahaniaeth, drwy gadw'r holl randdeiliaid yn y darlun drwy gydol y prosiect.
- 12.11 Roedd y gwaith o geisio uno'r safleoedd i'w ganmol ac mae tystiolaeth bod y Tîm Rheoli erbyn hyn wedi datblygu'r egwyddor o "Un Ysgol" a hynny o fewn tymor i'r ysgol agor. Mae hyn i'w ganmol yn fawr iawn.
- 12.12 Mae angen gweithio ymhellach gyda rhieni i ddwyn B5 a B6 yn nes at gydweithredu gyda disgyblion B7 a B8.

- 12.13 Mae lle hefyd i ystyried sut i ddefnyddio arbenigeddau o fewn yr unedau cynradd fel bod pob safle yn cael manteisio ar yr arbenigeddau amlwg sydd yn bodoli. Gyda 5 safle cynradd a chryn bellter rhyngddynt nid hawdd fydd datblygu hyn.

13. ARGYMHELLION

ARGYMHELLION:

- Dylid gosod gweledigaeth ar gychwyn y broses o sefydlu Ysgol Ddilynol, ac yn arbennig o o safbwynt datblygu'r 'ysgol ganol' er mwyn cael gwir werth Ysgol Ddilynol.
- Dylid parhau i ymdrechu i benodi Pennaeth Strategol yn gynnar iawn yn y broses, er mwyn galluogi'r Pennaeth, yr Awdurdod a'r Corff Llywodraethol i allu cydweithio ar weledigaeth yr Awdurdod.
- Dylid penodi Arweinydd Prosiect i fod yn gyfrifol am yr holl brosiect (o'i gychwyn i'w ddiwedd) sydd yn atebol i Fwrdd Rhaglen yr Awdurdod, i'r CLI ac i'r holl randdeiliaid.
- Dylid sicrhau cydweithrediad agos rhwng yr Undebau Proffesiynol, y Pennaeth Strategol, y CLI a'r Awdurdod i osod Strategaeth Staffio glir a buan yn y broses.
- Dylid sefydlu meini prawf clir a chwbl agored ar gychwyn y broses benodi fel nad oes unrhyw amwyster yn codi ymhellach ymlaen yn y broses.
- Dylid datblygu gwell trefn gyfathrebu fel bod yr holl randdeiliaid yn gwybod beth sydd yn digwydd (neu ddim yn digwydd sydd yr un mor bwysig).
- Dylid -sylweddoli fod bygythiad i staff o golli eu swyddi yn fater difrifol a thrawmatig, a dylid cydnabod ac ymateb i hyn.
- Dylid cyfleu ymddiheuriad i gyn-benaethiaid dalgylch Dolgellau am yr hyn a nodwyd.
- Dylai Ysgol Bro Idris ddatblygu ymhellach y cyswllt rhwng B5/6 a B7/8 dros y blynnyddoedd nesaf er mwyn datblygu egwyddorion Adroddiad Donaldson/ Dyfodol Disglair yn fwy cadarn, a pherthnasu'n well i egwyddorion Ysgol Ddilynol.

ATODIAD:

Ffynonellau'r dystiolaeth:

1. Pennaeth Strategol, Ysgol Bro Idris
2. Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Bro Idris
3. Cadeirydd Panel Penodi staff Ysgol Bro Idris
4. Pedwar Swyddog Addysg a Swyddog Addysg Cynorthwyol
5. Dau Swyddog Adran Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd
6. Pedwar cyn-benaethiaid cynradd dalgylch y Gader
7. Cadeirydd ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Gwynedd
8. Tri Swyddog Undebau Athrawon: NASUWT, NUT ac UCAC
9. Staff Ysgol Bro Idris i gynnwys:
 - 9 llythyr;
 - 4 e-bost;
 - tri chyfweiliad anffurfiol.
10. Disgyblion B5 a 6 mewn tri safle cynradd: Llanelltyd, Dolgellau a Rhydymain

Dogfennau:

1. Dogfennau a chyflwyniadau gan Swyddogion Gwynedd
2. Llythyrau'r Undebau at yr Awdurdod ac yr ymatebion
3. Llythyrau'r Undebau at Bennaeth Strategol/ CLI Ysgol Bro Idris a'r ymatebion
4. Cofnodion y GYDCA 10.03.17 a 11.06.17
5. Llythyr yr Awdurdod at Gadeirydd ac Is-gadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd Gwynedd.
6. Ymateb Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Ffederasiwn i lythyr yr Awdurdod
7. E-byst rhwng yr Awdurdod a Chynrychiolydd penaethiaid cynradd dalgylch y Gader

Hoffwn ddiolch am gydweithrediad parod yr holl randdeiliaid wrth i mi gasglu'r holl dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Gareth Williams

CV Gareth Williams

2007 – Presennol

Ymgynghorydd Annibynnol yn gweithredu ar draws Cymru yn cynorthwyo Awdurdodau, ysgolion a phenaethiaid unigol.

Gweithredu fel Arolygydd Annibynnol gydag Estyn yn arolygu ysgolion ac Awdurdodau

2004-2007:

Prif Weithredwr Cwmni Cynnal – Cwmni sy'n gwasanaethu ysgolion Cynradd, Arbennig ac Uwchradd Awdurdodau Môn a Gwynedd.

Cyfrifoldeb penodol:

- Prif Weithredwr y Cwmni
- Prif Ymgynghorydd y Cwmni
- Prif Arolygydd y Cwmni

1996-2004:

Ymgynghorydd Cynradd gyda chyfrifoldeb am dros 52 o ysgolion cynradd Ynys Môn.

Cyfrifoldeb ategol: Arwain Tîm Datblygu Rheolaeth Awdurdod Gwynedd ac Ynys Môn

1975-1996:

Pennaeth ysgolion cynradd Beddgelert, Y Gorlan, Tremadog, ac Yr Hendre, Caernarfon.

ⁱ Grŵp Ymgynghorol Dalgylchol Cynradd ac Arbennig

ADRODDIAD I'R CABINET

Mehfin 12fed, 2018

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Gareth Thomas

Pwnc: Band B Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain

Swyddogion cyswllt: Garem Jackson, Pennaeth Addysg a Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo

Y penderfyniad a geisir

1. Cymeradwyo mewn egwyddor blaenoriaethau cychwynol ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain.
 2. Aros am ganlyniad y broses o sefydlu Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor cyn mabwysiadu rhaglen derfynol.
-

Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater lleol

1.0 Gwedd gyntaf y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain (Band A)

1.1 Sefydlwyd Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru yn 2013 gyda'r nod o fuddsoddi (ar sail partneriaeth 50/50 gydag Awdurdodau Lleol) oddeutu £1.4bn mewn adeiladau addysg. Prif amcanion y rhaglen oedd:

- Lleihau'r nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael
- Darparu'r nifer cywir o lefydd i ddisgyblion mewn ysgolion yn y lleoliadau cywir, gan leihau llyfudd gweigion diangen
- Lleihau costau rhedeg adeiladau er mwyn uchafu'r adnoddau sydd ar gael i addysgu disgyblion
- Hyrwyddo cynaliadwyedd drwy leihau costau rhedeg, defnydd ynni ac allyriadau carbon

1.2 Ddiwedd y flwyddyn ariannol 2017/18 daeth gwedd gyntaf (Band A) Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif Ar Hugain y Llywodraeth i ben. Llwyddodd Cyngor Gwynedd i ddenu £18M o

arian grant o Fand A gyda £18M pellach o adnoddau'r Cyngor yn cael ei ddynodi er mwyn creu rhaglen gyflawn o £36M.

1.3 Mae'r buddsoddiad yma wedi ein galluogi i gyflawni'r cynlluniau canlynol:

- Ysgol Arbennig newydd Hafon Lon ynghyd a chartref gofal ysbaid Hafod y Sêr, ym Mhenrhyndeudraeth
- Ysgol Gydol Oes yn y Bala gan gynnwys adeilad cynradd newydd, uwchraddio'r gofod uwchradd, llyfrgell newydd, gofod chwaraeon newydd a darpariaeth sinema/theatr.
- Uwchraddio ac ymestyn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn
- Ysgol Gynradd newydd Glancegin ym Maesgeirchen, Bangor
- Ysgol Gynradd newydd Bro Llifton, Groeslon
- Uwchraddio ac ymestyn safleoedd Dolgellau, Rhydymain a Llanelltyd fel rhan o sefydlu Ysgol Gydol Oes Bro Idris

1.4 Mae Band A wedi caniatáu buddsoddiad yn ein hisadeiledd addysg ar raddfa nas gwelwyd yn y gorffennol. Mae'r cynlluniau hyn wedi ein galluogi i symud o 19 o ysgolion mewn gydag adeiladau oedd wedi eu hadnabod fel rhai mewn cyflwr derbyniol/gwael/gwael iawn, i 8 adeilad mewn cyflwr da. Mae Gwynedd wedi gallu cyflawni pob un o'r cynlluniau oedd wedi eu hadnabod yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2013/14 hyd at 2017/18. Cyn hyn, roedd y Cyngor eisoes wedi cael y blaen ar y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain ac wedi cychwyn ein rhaglen fuddsoddi cyn hyn gydag Ysgolion newydd yr Hendre yng Nghaernarfon a Chraig y Deryn a Phenybryn ym Mro Dysynni. Golyga hyn fod cyfanswm y buddsoddiad mewn adeiladau addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain dros £52M hyd yma'r ddegawd hon.

1.5 Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod Gwynedd fel un o'r Awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn cyflawni eu Rhaglen hyd yma ac rydym yn ymfalchïo eu bod yn cyfeirio atom fel enghraifft o ymarfer da yn y maes hwn. O ganlyniad i'r ymddiriedaeth yng ngallu'r Cyngor i gyflawni, mae'r Llywodraeth wedi cyfeirio dyraniad ychwanegol o £12M o arian gweddilliol Band A tuag at Wunedd er mwyn ein galluogi i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor. Mae'r adolygiad hwnnw ar y gweill gyda chynigion am Ysgol newydd yn y Garnedd ac ymestyn ac uwchraddio Ysgol y Faenol.

1.6 Wrth i wedd gyntaf y rhaglen ddirwyn i ben, ac fel rhan o'n gwaith paratoi ar gyfer cyflawni'r wedd nesaf, cynhaliwyd adolygiad i sefydlu os oedd ein trefniadau rheoli rhaglen yn addas ar gyfer symud ymlaen i wedd nesaf y rhaglen uchelgeisiol hon. Mae rhai o'r prosiectau yn y maes yma yn rhai cymhleth iawn sy'n gorfod dilyn prosesau statudol caeth ac yn gofyn am gydweithio a chyfathrebu effeithiol gyda nifer o randdeiliaid.

- 1.7 Mae dau dîm gwahanol wedi bod yn ymwneud â'r cynlluniau unigol ym Mand A, y Tîm Moderneiddio yn yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu yn y Gwasanaeth Eiddo, Adran Amgylchedd.
- 1.8 Casgliad yr adolygiad oedd mai un tîm integredig sydd ei angen i reoli a chyflawni'r cynlluniau hyn gan fod yr holl dasgau o asesu opsiynau, ymgynghori, cynllunio, adeiladu a sefydlu ysgolion newydd yn ffurfio rhan o un cynllun cyfansawdd, gydag Arweinydd Prosiect a Rheolwr Prosiect wedi eu hadnabod yn glir i gymryd cyfrifoldeb dros bob cynllun unigol, o'r dechrau i'r diwedd.
- 1.9 Cynlluniau Addysg yw'r rhain ac felly'r Pennaeth Addysg fydd yn Arweinydd Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain y Cyngor, gan osod y cyfeiriad strategol a'r allbynnau disgwylidig o gynlluniau unigol. Er mwyn sicrhau fod yr holl gynlluniau hyn yn cael eu cyflawni'n amserol, fod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu ar draws y Rhaglen, ac i gadw trosolwg ar waith dydd i ddydd y tîm integredig newydd, bydd Uwch Reolwr Eiddo'r Cyngor yn cyflawni'r rôl Uwch Gyflenwr Rhaglen ar gyfer unrhyw gynlluniau fydd yn cael eu cynnwys ym Mand B.

2.0 Ail wedd y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain (Band B – 2019 hyd at 2026)

- 2.1 Mae'r Llywodraeth nawr yn cyfeirio'i golwg tuag at ail wedd y Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar hugain (Band B), a fydd yn cychwyn yn Ebrill 2019. Derbyniwyd cais gan y Llywodraeth yn gofyn i bob Awdurdod sefydlu eu blaenoriaethau ar fyr rybudd os am sicrhau y byddai arian yn cael ei glustnodi ar ein cyfer gan y Llywodraeth pe baem yn penderfynu parhau gyda materion penodol.
- 2.2 Wrth ofyn am y wybodaeth yma, roedd y Llywodraeth yn cydnabod na fyddai'r un Awdurdod ar hyn o bryd wedi gallu sefydlu'n gadarn pa gynlluniau y maent yn gallu eu cyflawni dros y cyfnod nesa ac na fyddai penderfyniadau mewn lle i fwrw 'mlaen gyda chynlluniau penodol. Ymhellach, roeddent yn cydnabod na fyddai Awdurdodau yn gallu ymrwymo i fod yn cyflawni'r cynlluniau hyn cyn gwneud cryn dipyn o waith mwy manwl ar yr agweddau technegol a'r agweddau addysgiadol ynghlwm i bob cynllun. Anodd iawn fyddai i'r un Awdurdod allu ymrwymo i wneud cyfraniad o 50% tuag at eu rhaglen mor gynnar yn y broses.
- 2.3 Fodd bynnag, er mwyn i'r Llywodraeth allu cynllunio'n ariannol ar gyfer Band B, roedd angen iddynt ddeall pa fath o fuddsoddiad fyddai ei angen i allu cefnogi blaenoriaethau'r Awdurdodau unigol. Roedd cyfarwyddyd clir ynghlwm i'r cais yn nodi na fyddai arian ar gael ar gyfer cynlluniau unigol os na fyddent yn cael eu cynnwys yn rhan o'n rhaglen Band B.
- 2.4 Felly, er nad ydym wedi gwneud unrhyw ymrwymiad o gwbl fel Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, er mwyn sicrhau na fyddem yn colli'r cyfle pe bai'n dymuno cyflawni cynlluniau cyfalaf o dan y Rhaglen hon dros y 7 mlynedd nesa, bu'n rhaid i'r Adran Addysg gynnal ymarferiad blaenoriaethu a arweiniodd at sefydlu'r blaenoriaethau posib canlynol:

2.5 Gwella adnoddau addysg uwchradd ym Mangor - drwy ddefnyddio'r arian gweddilliol o Fand A, ynghyd â chwblhau ysgol gynradd newydd ym Maesgeirchen, bydd y Cyngor wedi sicrhau fod y ddarpariaeth gynradd (ac eithrio Ysgol yr Eglwys Gatholig - Ysgol Ein Harglwyddes) yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain (wedi dileu). Wrth ymgynghori'n lleol ar ddyfodol addysg ym Mangor, roedd barn gref nad oedd yr adnoddau uwchradd, yn arbennig yn ysgol Tryfan, yn addas i bwrpas. Mae adeiladau'r ysgol hon o natur draddodiadol iawn a bellach angen addasu neu hyd yn oed ail adeiladu ar raddfa eang os yw am gyrraedd safon ddisgwyliedig ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Ar droad y ganrif roedd sefyllfa debyg yn bodoli yn Ysgol Friars ac wrth gwrs mae darpariaeth newydd yno bellach sydd yn golygu fod gwahaniaeth sylweddol yn safon yr Adnoddau ar y ddau safle.

2.6 Ysgol Ein Harglwyddes (Ysgol Eglwys Gatholig) - mae'r adeiladau ar y safle hwn mewn cyflwr gwael iawn ac mae ein harolygon cyflwr wedi adnabod ers blynyddoedd lawer y byddai angen buddsoddiad sylweddol i'w gwella. Hyd yn oed pe byddem yn buddsoddi, mae'r safle ei hun mewn lleoliad cyfochrog â phriffordd brysur a rheilffordd, mae'n safle cyfyng ac yn anaddas i bwrpas yn yr unfed ganrif ar hugain. Gan mai'r Eglwys Gatholig sydd yn gyfrifol am yr adeiladau hyn, ni fyddai gofyn i'r Cyngor gyfrannu ar gost adnodd newydd. Mae modd i'r Eglwys ddenu cyfraniad o 85% gan y Llywodraeth tuag at y costau adleoli ac maent yn awyddus i fanteisio ar y cyfle yma. Wrth gwrs, plant Gwynedd fydd yn mynychu'r ysgol ac felly mae angen i unrhyw gynllun fyddai'n effeithio arnynt gael ei gynnwys o fewn rhestr blaenoriaethau Cyngor Gwynedd.

2.7 Addysg Ôl 16 - Yn ystod y tymor nesaf, bydd adolygiad annibynnol o'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngwynedd yn mynd rhagddo, gyda ffocws amlwg ar ysgolion Arfon, ble mae disgyblion ôl-16 yn derbyn eu haddysg yn yr ysgolion uwchradd yn hytrach na mewn darpariaeth Coleg trydyddol fel sy'n digwydd yng ngweddill y sir. Bydd yr adolygiad annibynnol yn ymhelaethu ar rinweddau a gwendidau'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer modelu'r ddarpariaeth i'r dyfodol. Heb ragdybio unrhyw ganlyniad i'r adolygiad annibynnol, byddai methiant a chynnwys y cynllun hwn yn rhestr flaenoriaethau amlinellol y Cyngor yn golygu y byddem yn colli'r cyfle i wireddu unrhywbeth yn y maes yma ar gyfer pobl ifanc Arfon os mai dyma fyddai canlyniad yr adolygiad annibynnol i'r ddarpariaeth ôl-16 presennol.

2.8 Gwella darpariaeth cynradd yng Nghricieth - mae ein harolygon cyflwr wedi adnabod fod cyflwr adeiladau ysgol Treferthyr yng nghategori C - sy'n golygu fod nifer o ddiffygion sylweddol i'r adeiladwaith angen sylw o fewn y 5 mlynedd nesaf. Ychydig dros 5 mlynedd yn ôl bu gwariant er mwyn ceisio ymestyn oes yr adeiladau am gyfnod. Mae rhannau o'r adeiladau o wneuthuriad coed ac o ansawdd gwael. Bellach mae effaith y gwaith dros dro yn dechrau dirwyn i ben ac mae'n annhebygol y gallwn ymestyn oes yr adeilad ymhellach nag oddeutu 5 mlynedd arall. O beidio â chynllunio nawr ar gyfer datrysiad tymor hir, mae risg uchel o orfod delio gyda sefyllfa frys o fewn y 5 myned nesa.

2.9 Cyflwr/addasrwydd safleoedd unigol - er y gwyddom y bydd sawl gwedd arall o'r rhaglen Ysgolion Unfed ganrif ar hugain yn y dyfodol, mae rhai safleoedd oherwydd eu lleoliad daearyddol, eu maint neu rinweddau unigryw, yn golygu na fyddant yn debygol o fod yn gymwys ar ben eu hunain ar gyfer cynllun i'w gwneud yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Er mwyn ceisio cywiro sefyllfa o'r fath, rydym wedi cynnwys cynllun amlinellol a fyddai'n caniatáu uwchraddio cyflwr ac addasrwydd oddeutu 20-30 o ysgolion gyda'i gilydd dros y saith mlynedd nesa.

3. Ariannu cyfraniad y Cyngor

- 3.1 Mewn byd delfrydol byddem yn dymuno cynnwys nifer o gynlluniau eraill i wella adnoddau ysgolion dros gyfnod Band B. Fodd bynnag, rhaid bod yn effro i'r ffaith mai cyfraniad o 50% fydd y Llywodraeth yn ei gynnig tuag at y rhaglen os fydd ein ceisiadau ac achosion busnes manwl yn llwyddiannus. Bydd gofyn i Gyngor Gwynedd ariannu'r 50% cyfatebol.
- 3.2 Gwybodaeth fras iawn am y cynlluniau unigol sydd ar gael heddiw ac mae amcangyfrifo costau tebygol y cynlluniau uchod yn hynod o anodd gan nad ydym o bell ffordd wedi sefydlu beth yn union fyddai angen ei adeiladu, ar ba safleoedd nac ar gyfer faint o ddisgyblion. Fodd bynnag, er mwyn galluogi'r Llywodraeth i flaen gynllunio, roedd yn rhaid darparu amcangyfrifon bras ac ar sail y wybodaeth sydd i law heddiw, amcangyfrifir y byddai'r gost o wireddu'r cyfan o'r cynlluniau hyn oddeutu £52M. (Cost Ysgol Ein Harglwyddes wedi ei eithrio gan na fydd angen cyfraniad ariannol gan Gyngor Gwynedd).
- 3.3 Golyga hyn y byddai angen i'r Cyngor ymrwymo oddeutu £26M o gyfalaf dros y saith mlynedd nesa, os fyddwn yn dymuno bwrw 'mlaen gyda'r holl gynlluniau posib.
- 3.4 Wrth gwrs mae gan y Cyngor nifer o alwadau eraill ar ei adnoddau cyfalaf prin. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n casglu ynghyd yr holl ofynion gwario cyfalaf ar draws adrannau'r Cyngor er mwyn gallu llunio ein Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer y 10 mlynedd nesa gan fod ein cynllun presennol yn dod i ben eleni. Mae'n amserol iawn felly i ni ystyried ein gallu i gyflawni'r holl gynlluniau posib ym Mand B wrth bwysu a mesur yn erbyn y gofynion gwario eraill.
- 3.5 Bydd y broses o ystyried beth sy'n flaenoriaeth o ran gwariant cyfalaf wedi ei chwblhau erbyn y Nadolig a bryd hynny byddwn mewn sefyllfa i gadarnhau os ydym yn dymuno ariannu'r holl gynlluniau ym Mand B neu oes galwadau eraill o flaenoriaeth uwch, o gofio mai swm cyfyngedig o gyfalaf fydd ar gael dros y cyfnod dan sylw.

Y Swyddog Monitro:

Fe nodir yn yr adroddiad fod gofynion y Llywodraeth yn ein gyrru at sefydlu blaenoriaethau cychwynnol er gwarchod sefyllfa'r awdurdod. Mae'r argymhellion yn briodol yn y cyd-destun yma.

Y Pennaeth Cyllid:

Mae'n glir o'r adroddiad nad yw amseru cais Llywodraeth Cymru am wybodaeth yn cydweddu ag amserlen datblygu Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. Y Cynllun hwnnw fydd y cyfle i roi amcangyfrifon yn eu lle, a blaenoriaethu holl anghenion y Cyngor am adnoddau cyfalaf prin.

Mae'r blaenoriaethau sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad yn rhesymol ac maent yn gyson â'r ddealltwriaeth am gyflwr adeiladau presennol, a gyda'r ymwybyddiaeth am yr angen i ddatblygu asedau lle bydd pwysau am hynny yn y dyfodol. Rwyf felly'n gefnogol i'r penderfyniad a geisir.

Atodiadau

Dim

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 12 Mehefin 2018
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt: Sioned Owen / Rachel Jones
Rhif Ffôn Cyswllt: 01286 662632/ 01248 352436
Teitl yr Eitem: Cynnig gofal plant 30 awr ar gyfer plant 3-4 oed

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Gofynnir i'r Cabinet gytuno i'r uned gofal plant Gwynedd a Môn, Adran Plant a Theuluoedd cydweithio gyda Chyngor Conwy gan weithredu fel Awdurdod Arweiniol i weinyddu'r cynnig gofal plant 30 awr ar gyfer plant 3- 4 oed gan weithredu yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.
- 1.2 Fod gweithredu 1:1 yn amodol fod yr Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn cadarnhau y trefniadau llywodraethu rhwng- awdurdod a sicrhau fod cytundeb partneriaeth priodol mewn lle gyda Cyngor Gwynedd a Chynghorau Ynys Môn a Conwy.

2 CYFLWYNIAD

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i ddarparu, o fewn tymor presennol y Llywodraeth, 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio, ac sydd â phlant 3 neu 4 mlwydd oed, am 48 wythnos y flwyddyn. Bydd yr addysg gynnar am ddim a ddarperir gan y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn rhan o'r cynnig hwn.
- 2.2 Ers Medi 2017 mae Llywodraeth Cymru wedi treialu'r cynnig gyda saith awdurdod lleol; sef Gwynedd a Môn (gweithio ar y cyd); Blaenau Gwent; Caerffili; Sir y Fflint; Rhondda Cynon Taf ac Abertawe.
- 2.3 Cychwynnodd Gwynedd ar y cynnig ym Medi 2017 gan weithredu mewn 4 ardal Llesiant. Ers hynny cafwyd hawl i ychwanegu mwy o ardaloedd Llesiant yn raddol. Ers Ebrill 2018 cytunodd y Llywodraeth i gynnwys Gwynedd a Môn yn llawn yn y Cynllun. Gweler y tabl drosodd yn dangos y nifer o geisiadau fesul ardal Llesiant gan gynnwys y nifer o ddarparwyr gofal plant sydd wedi cofrestru fesul ardal.


Ardal Llesiant	Medi 2017	Hyd 2017	Tach 2017	Rhag 2017	Ion 2018	Chwe 2018	Maw 2018	Ebrill 2018	Cyfanswm	Nifer y darparwyr gofal plant
Bangor	89	12	2	2	43	7	4	21	180	29
Porthmadog	28	4	3	1	13	4	1	8	62	17
Dolgellau	25	8	6	2	9	1	1	11	63	9
Ffestiniog	18	9	2	0	9	0	0	8	46	10
Caernarfon	x	x	x	101	78	15	12	23	229	44
Penllyn (Bala)	x	x	x	x	18	3	0	8	29	7
Llŷn	x	x	x	x	x	x	x	37	37	16
Tywyn	x	x	x	x	x	x	x	23	23	6
	160	33	13	106	170	30	18	139	669	138

- 2.4 Yng Nghabinet y Cyngor ar y 14 o Chwefror 2017 cytunwyd i sefydlu Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn. Mae'r uned bwrsasol hon yn gweinyddu'r ceisiadau'r cynnig ac yn ymwneud a dyletswyddau deddf gofal plant 2006 y ddwy sir. Gwynedd sy'n lletya'r uned o fewn swyddfa ym Mangor.
- 2.5 Mae Swyddogion Gwynedd a Môn wedi bod yn gweithio gydag Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd i lunio cytundeb partneriaeth ffurfiol i weithredu'r gwaith o fewn yr Uned i'r ddwy sir. Nid yw'r gwaith yn orffenedig eto.
- 2.6 Erbyn hyn mae'r fîm yn cydweithio'n dda ac yn effeithiol ac wedi dosbarthu'r cyfansymiau cyllid isod i ddarparwyr gofal plant Gwynedd a Môn. Mae hyn yn amlwg wedi rhoi hwb economaidd gan ryddhau rhieni yn ariannol a chaniatáu rhieni i weithio mwy. Hefyd gwelir fod y darpariaethau gofal plant yn llawer mwy llewyrchus fel busnesau gan fod y raddfa talu o £4.50 yr awr yn ffafriol iawn iddynt.

Arian a ddosbarthwyd i'r lleoliadau gofal plant	Medi 2017	Hyd 2017	Tach 2017	Rhag 2017	Ion 2018	Chwe 2018	Maw 2018	Ebrill 2018	Cyfanswm
Gwynedd	£46,390	£75,942	£67,576	£75,039	£151,092	£136,346	£145,125	£226,800	£924,310
Môn	£20,619	£31,108	£24,129	£19,471	£50,400	£53,097	£58,272	£101,882	£358,978
Cyfanswm	£67,009	£107,050	£91,705	£94,510	£201,492	£189,443	£203,397	£328,682	£1,283,288

- 2.7 Yn y cyfnod nesaf mae gan y Llywodraeth £25m i fuddsoddi yn y Cynnig Gofal Plant yn ystod 2018 a £40m arall yn 2019. Eleni maent yn gobeithio cael tua 11 awdurdod lleol ychwanegol i ehangu'r cynllun peilot presennol.
- 2.8 Yn unol â'r canllaw newydd bydd dau ddull gwahanol i Awdurdodau sef bod rhai awdurdodau yn gweithredu fel rhai '**cyflenwi**' a rhai eraill yn '**ymgysylltu**':
- Bydd **Awdurdodau Cyflenwi ac Arweiniol** yn gyfrifol am brosesu ceisiadau gan rieni, gan benderfynu ar gymhwyster rhieni a'u hysbysu o'r canlyniad. Byddant hefyd yn prosesu a gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant am ddarparu'r cynnig.
 - Bydd **Awdurdodau Ymgysylltu** yn gyfrifol am hyrwyddo'r cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd, gan weithio gyda Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i ddelio ag ymholiadau ar y cynnig a darparu gwybodaeth sydd ei hangen ar awdurdodau dosbarth i brosesu ceisiadau a gweinyddu'r cynnig.
- 2.9 Rhesymeg y Llywodraeth yw o ran cyflwyno'r ddau fodel yw gall yr 11 awdurdod newydd ddysgu oddi ar y 7 awdurdod a bu'n gweithredu'n gynnar yn 2017. Galluogai hyn bod modd defnyddio systemau a phrosesau sydd eisoes wedi'u datblygu, yn gwneud defnydd effeithlon o'r cyllid sydd ar gael.
- 2.10 Yng Ngogledd Cymru mae dau awdurdod gweithredu cynnar sef Gwynedd ac Ynys Môn (gweithio ar y cyd) a Sir y Fflint. Bwriad y Llywodraeth yw cynnig i Conwy weithio mewn partneriaeth gyda Gwynedd a Môn a bod Wrecsam yn dod ar y cyd i weithio gyda Sir y Fflint, a bydd Sir Ddinbych yn ymuno â Sir y Fflint yn ddiweddarach.
- 2.11 O safbwynt cyflwyniad strategol y cynnig gofal plant ledled Cymru, mae'r Llywodraeth am i'r broses fod mor unffurf â phosibl a sicrhau'r gwerth am arian gorau ar gyfer gweinyddu'r broses felly o ganlyniad bydd y cynnig gofal plant gael ei sbarduno gan yr egwyddorion canlynol yn y cyfnod nesaf:
- dylai'r broses o wneud cais am y cynnig fod mor unffurf â phosibl i rieni;
 - dylai'r broses ar gyfer taliadau i ddarparwyr gofal plant fod mor syml â phosibl, yn enwedig os ydyn nhw'n darparu gofal plant i rieni o fwy nag un awdurdod lleol;
 - osgoi dyblygu ymdrech wrth ddatblygu systemau a phrosesau;
 - adeiladu ar arfer gorau presennol a lleihau'r gwahaniaethau yn y dull a ddefnyddir ledled Cymru;
 - sicrhau arbedion maint.

2.12 Derbyniodd Cyngor Gwynedd a Môn grant gweinyddu o £166mil (£83mil cyfartal) ar gyfer 2018-19. Ariennir 4 swyddog o fewn yr Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn o'r gyllideb hon sef y rhai mewn oren ar y strwythur isod:



2.13 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd cost ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno'r cynnig gofal plant ar draws Gwynedd ac Ynys Môn, a chostau ychwanegol yn gysylltiedig â'i gyflwyno yng Nghonwy. Maent wedi adolygu'r dyraniadau a wnaed o ran gweinyddu yng ngoleuni'r ehangiad hwn. Pan fydd Gwynedd, Sir Fôn a Chonwy wedi cytuno ar drefniadau ffurfiol, bydd yn Llywodraeth yn cyhoeddi llythyr grant gweinyddu newydd sy'n goresgyn y llythyr gwreiddiol am 18 mis i dalu costau cyflwyno'r cynnig gofal plant ar draws y tair ardal awdurdod lleol. Bydd y llythyr newydd am flwyddyn yn unig gyda cynnydd o £33 mil i weinyddu ar gyfer Conwy. Mae'r swm wedi ei selio ar y gwaith a gynhaliwyd gan gwmni Gartner sef y costau sydd ynghlwm â phrosesu ceisiadau.

Costau Craidd Arfaethedig 2018-19			
	Strwythur Presennol Gwynedd £83,000 Môn £83,000	Strwythur arfaethedig Gwynedd £83,000 Môn £83,000 Conwy - £33,000	Conwy- Awdurdod ymgysylltu
Rheolaeth a Staffio – 30 awr	£136,399	£30,000	Costau staff i ymgysylltu a hyrwyddo
Capita	£14,032		£46,000
Costau gweithredol	£15,569	£3,000	
Cyfanswm Grant	£166,000	£33,000	

- 2.14 Bydd Conwy yn disgwyl targedu oddeutu 200 o blant o Fedi ymlaen gan dargedu y ddwy ardal canlynol
- Ardal 1 – Abergele; Kinnel Bay, Towyn, Pensarn / Belgrano, Pentremawr, Gele (Abergele), Llanddulas sy'n cynnwys pentrefi gwledig Trefriw, Betws y Coed, Llanrwst, Caerhun (Dolgarrog), Eglwysbach, Uwch Conwy (Penmachno, Capel Garmon, Ysbyty Ifan).
 - Ardal 2 - Clwstwr Tudno: Tudno, Mostyn, Gogarth gan gynnwys clwstwr mwy gwledig sef Llangernyw /Pentrefoelas, Llansannan, Betws yn Rhos / Llanfair Talhaiarn, Uwchaled.
- 2.15 Wrth gynnwys Conwy mae'n amlwg bydd angen cynyddu'r lefel o weinyddiaeth o fewn strwythur staffio yn yr Uned i ganiatáu mwy o staff gweinyddol fel bod modd prosesu'r ceisiadau ychwanegol. Wrth wneud hyn bydd rhaid sicrhau trefniadau clir o ran cydweithio gan seilio hyn o fewn cytundeb ffurfiol gyda Conwy. O fewn y cytundeb hynny bydd angen nodi'r risgiau clir a'u goresgyn cyn gall Gwynedd fynd a'r cynllun peilot yma yn ei flaen.
- 2.16 Bydd angen i Gonwy brynu modiwlau i system data 'Capita - One' a ddefnyddir gan Gwynedd /Ynys Môn i weinyddu'r taliadau'r cynnig. Mae 'Capita - One' yn system data Addysg a ddefnyddir ar draws y consortiwm Addysg GWE yn y Gogledd. Rhoddwyd arweiniad i Gonwy ar y 25 o Fai fod angen iddynt gyflwyno achos busnes i'r Llywodraeth i wneud achos am yr angen i brynu modiwlau ychwanegol Capita. Bydd rhaid i Gonwy hefyd dalu unrhyw ffioedd gyda'r system wrthi fynd ymhellach i mewn i'r cynllun o 2019 ymlaen.

3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Ar Fawrth 20, 2018 derbyniwyd llythyr gan Lywodraeth Cymru (Atodiad A) yn nodi'r angen i gydweithio ar angen i brosesu ceisiadau ar ran Conwy, gyda grant gweinyddol wedi'i ddyfarnu i Gwynedd / Ynys Môn / o Lywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno ar y dull hwn yn ddiweddar ac, o ganlyniad mae'r llythyr yn ein gwahodd i ddechrau ar y trefniadau ffurfiol i wneud i hyn ddigwydd. Bydd angen i hyn gynnwys cytundebau ffurfiol rhwng yr awdurdodau, yn unol â'r prosesau mewnol. Os rhoddir cytundeb i Gonwy weithio mewn partneriaeth â Gwynedd /Môn bydd angen datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth i amlinellu'r ddau gyfrifoldeb am awdurdod 'cyflwyno' ac awdurdod 'ymgysylltu' yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru.
- 3.2 Cyflwynodd swyddogion Conwy papur i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau Conwy ar y 13.3.18 lle penderfynwyd ar enwebu ardaloedd i'r cynnig. Bydd papur arall yn mynd i sylw'r Pwyllgor hwn ar y 5ed o Fehefin i gytuno ar y cydweithio gyda Gwynedd a Môn ac i bryniant y

system Capita drwy nawdd y Llywodraeth fel eu bod yn gallu dechrau cyflwyno'r cynnig mewn rhai ardaloedd yng Nghonwy o fis Medi 2018 ymlaen.

- 3.3 Bydd Prif weithredwr Môn yn cytuno yn dilyn penderfyniad y Cabinet hwn a Phwyllgor Conwy.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- Angen cytundeb y tair sir ac ail lunio'r cytundeb partneriaeth.
- Angen cadarnhad ariannol gan y Llywodraeth.
- Ail strwythuro a phenodi fîm traws sirol i gynyddu'r lefel angenrheidiol o weinyddiaeth a rheolaeth.
- Gwahodd Conwy i sefyll ar Fwrdd Strategol Gofal Plant Gwynedd a Môn
- Sefydlu system data 'Capita' Conwy i efelychu system Gwynedd a Môn
- Cychwyn gweinyddu ceisiadau Conwy Gorffennaf 2018
- Cyfnod peilot Conwy i gychwyn mis Medi 2018
- Gweinyddu taliadau ar gyfer darparwyr gofal plant Conwy Hydref 2018
- Mynychu cyfarfodydd cenedlaethol i drafod y cynnig
- Prosiect yn weithredol ar draws Cymru erbyn 2020

5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 5.1 Mae ymgysylltiad wedi digwydd gyda'r partneriaid / rhanddeiliaid canlynol:
- i. Daeth Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr Isadran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru fyny i gyfarfod y Penaethiaid gwasanaeth Marian Parry Hughes a Delyth Molyneaux a'r fîm ar y 5ed o Chwefror. Yn dilyn y trafodaethau hynny, fe wnaeth y Llywodraeth gytuno i ymestyn y cynnig yn llawn i Wynedd a Môn a dechreuodd hyn ar draws y ddau awdurdod ym mis Ebrill 2018. Cafwyd trafodaeth hefyd am yr angen i gydweithio gydag Awdurdod Conwy yn y cyfarfod.
 - ii. Cynhaliwyd cyfarfod cenedlaethol yn Llanfair y Muallt ar y 21 Fawrth lle'r oedd yr Awdurdodau newydd fydd yn darparu'r cynnig o 2018 ymlaen yn bresennol. Cafwyd trafodaethau helaeth yno am y datblygiad.
 - iii. Cynhaliwyd cyfarfod gyda chydweithwyr Conwy ar y 10fed o Ebrill i drafod systemau a phrosesau 'cyflwyno' ac 'ymgysylltu'. Nododd swyddogion Conwy eu bod yn barod iawn i weithio gyda Gwynedd a Môn gan ddatgan y byddai cyfathrebu clir yn allweddol o'r cychwyn.

5.2 Barn y Swyddogion Statudol:

Y Swyddog Monitro

- i. Mae cyfeiriad yn yr adroddiad at waith sydd ar y gweill i sefydlu cytundeb bartneriaeth ar gyfer rheoli y berthynas rhwng y cynghorau, diffinio cyfrifoldebau a rheoli risgiau. Fe osodir gofyn yn y llythyr oddi wrth y Llywodraeth fod cytundebau ffurfiol rhwng y cynghorau fod yn gynwysedig yn y trefniadau. Mae'n hanfodol felly fod hyn yn cael ei ffurfioli fel blaenoriaeth ac yn cynnwys y trefniadau ar gyfer y gwaith rhwng y tri cyngor. Mae union lwybr cadarnhau y trefniadau yn ddeilliant o'r strwythur a fabwysiedir ac unrhyw ofynion yn glŷn a dirprwyo.

Y Pennaeth Cyllid

- ii. Ymddengys bydd grant Llywodraeth yn ariannu'r ymrwymiad ariannol ychwanegol i'r uned weinyddu'r "cynnig" yng Nghonwy, yn ogystal â'r drefn gyfredol dros Gwynedd a Môn. Mae risg, pe bai'r Llywodraeth yn atal y grant penodol, ein bod am fethu cyflawni'r "Cynnig Gofal Plant" i'r dyfodol, ac yn wynebu costau terfynu'r staff perthnasol. Fodd bynnag, credwn fod hynny yn risg isel gan fod polisi Llywodraeth Cymru yn anelu i weithredu'r prosiect ar draws Cymru erbyn 2020.



At: Mr Dilwyn Owen Williams,
Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

dilwynowenwilliams@gwynedd.gov.uk

Mr Gwynne Jones
Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Gwynne.Jones@ynysmon.gov.uk

Cc: Delyth Molyneaux
Marian Parry Hughes
Sioned Owen
Bethan Jones
Rachel Jones

20 Mawrth 2018

Annwyl Dilwyn a Gwynne,

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda saith awdurdod lleol ledled Cymru i gyflwyno'r cynnig gofal plant ers mis Medi 2017. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ymdrechion rydych chi wedi'u gwneud i gyflwyno'r cynnig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ers hynny, ac yn enwedig i Sioned Owen, Bethan Jones, Rachel Jones a'u timau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno'r cynnig gofal plant ledled Cymru erbyn mis Medi 2020. Cyn hynny, hoffem ehangu'r rhaglen gweithredu cynnar, gan ein galluogi i brofi'r cynnig mewn cymaint o awdurdodau â phosibl cyn ei gyflwyno'n llawn. Rydym wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer gwneud hyn, gan edrych ar gyflwyno'r cynnig ar draws y 15 awdurdod lleol sy'n weddill yng Nghymru ac ehangu'r ddarpariaeth gyda'n saith partner presennol.

Mae'r ystyriaethau hyn wedi'u llywio gan y cyfarfod a gefais gyda Delyth Molyneaux a Marion Parry Hughes ar 5 Chwefror. Yn dilyn y trafodaethau hynny, hoffwn wahodd Ynys Môn a Gwynedd i ddechrau cyflwyno'r cynnig gofal plant ar draws y ddau awdurdod ym mis Ebrill 2018.

Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n croesawu'r penderfyniad hwn, ac y byddwch chi'n gallu sicrhau cytundeb trwy eich prosesau mewnol yn ôl y gofyn.

Gan droi at y posibilrwydd o gyflwyno'r cynnig mewn mwy o awdurdodau lleol, un o'r materion a archwiliwyd yn y cyfarfod ar 5 Chwefror oedd y posibilrwydd y gallai Ynys Môn a Gwynedd gyflwyno'r cynnig gofal plant ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd. Mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno ar y dull hwn yn ddiweddar ac, o ganlyniad, hoffwn eich gwahodd i ddechrau ar y trefniadau ffurfiol i wneud i hyn ddigwydd.

Rydym yn rhagweld y bydd y cynnig yn dechrau cael ei gyflwyno mewn rhai ardaloedd yng Nghonwy o fis Medi 2018 ymlaen. Bydd angen i hyn gynnwys cytundebau ffurfiol rhwng eich awdurdodau, yn unol â'ch prosesau mewnol. Chi sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa drefniadau llywodraethu ehangach sydd angen eu rhoi ar waith, ond byddwn yn disgwyl iddynt gael eu cytuno'n ffurfiol gyda Chonwy maes o law.

O safbwynt cyflwyniad strategol y cynnig gofal plant ledled Cymru, rydym am i'r broses fod mor unffurf â phosibl a sicrhau'r gwerth am arian gorau ar gyfer gweinyddu'r broses. O ganlyniad, rydym am i gyflwyniad pellach y cynnig gofal plant gael ei sbarduno gan yr egwyddorion canlynol:

- dylai'r broses o wneud cais am y cynnig fod mor unffurf â phosibl i rieni;
- dylai'r broses ar gyfer taliadau i ddarparwyr gofal plant fod mor syml â phosibl, yn enwedig os ydyn nhw'n darparu gofal plant i rieni o fwy nag un awdurdod lleol;
- osgoi dyblygu ymdrech wrth ddatblygu systemau a phrosesau;
- adeiladu ar arfer gorau presennol a lleihau'r gwahaniaethau yn y dull a ddefnyddir ledled Cymru;
- sicrhau arbedion maint.

At hynny, byddwch chi'n ymwybodol ein bod ni mewn trafodaethau gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch proses ymgeisio ar-lein tymor hwy i rieni wneud cais am y cynnig gofal plant ac i ddarparwyr gofal plant dderbyn taliad. O ganlyniad, rydym am leihau'r gost i Gymru o ddatblygu prosesau lluosog a fydd yn dod i ben yn 2020.

O dan y model hwn, byddai Gwynedd ac Ynys Môn yn gyfrifol am: brosesu ceisiadau gan rieni ar draws y tri awdurdod; pennu eu cymhwysedd; cytuno ar delerau gyda darparwyr gofal plant; a phrosesu taliadau iddyn nhw. Byddem yn disgwyl i Gonwy fod yn gyfrifol am roi hyrwyddo'r cynnig ymhlith rhieni a darparwyr gofal plant yn eu cymunedau; hyfforddi eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ymdrin ag ymholiadau am y cynnig gofal plant; a darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi. Byddaf yn darparu grant ar wahân iddynt i hwyluso hyn.

Rydym yn cydnabod y bydd cost ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno'r cynnig gofal plant ar draws Ynys Môn a Gwynedd, a chostau ychwanegol yn gysylltiedig â'i gyflwyno yng Nghonwy. Credaf eich bod eisoes wedi derbyn llythyr cynnig grant ar gyfer y grant gweinyddu ar gyfer y cynnig gofal plant yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at fis Medi 2019. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r dyraniadau a wnaed o ran gweinyddu yng ngoleuni'r ehangiad hwn. Pan fyddwch chi a Chonwy'n cytuno ar drefniadau ffurfiol,

byddaf yn cyhoeddi llythyr grant gweinyddu ychwanegol i dalu costau cyflwyno'r cynnig gofal plant ar draws y tair ardal awdurdod lleol.

Yn ogystal, byddwch chi'n derbyn llythyrau cynnig grant ar gyfer y grantiau i dalu am gostau'r gofal plant ac i gefnogi plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ledled Gwynedd ac Ynys Môn. Mae angen i ni sicrhau bod yr arian hwn ar gael ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd o fis Ebrill ymlaen a, chyn gynted ag y bydd trefniadau ffurfiol wedi'u cytuno gyda Chonwy, byddaf yn cyhoeddi llythyr grant ychwanegol i dalu'r costau cyflwyno yn yr ardaloedd hynny. Bydd y grantiau hyn yn parhau i gael eu talu yn seiliedig ar hawliadau i sicrhau bod yr elfen gofal plant yn cael ei hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

Nid wyf yn tanbrisiu heriau cydweithio fel hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio'n rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Felly, gallwch chi fod yn sicr y byddwn ni'n parhau i'ch cefnogi chi drwy'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen hon.

Bydd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol yn gwneud Datganiad Ysgrifenedig ar ehangu'r cynnig gofal plant yn yr wythnosau nesaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem alinio ein gohebiaeth a sicrhau bod unrhyw ddatganiadau cyhoeddus ynghylch cyflwyno'r cynnig gofal plant ar draws Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu gwneud ochr yn ochr â'r Datganiad Ysgrifenedig hwn.

Rwy'n ysgrifennu at bob awdurdod lleol arall yng Nghymru i roi gwybod iddynt am ehangiad pellach y cynnig gofal plant ar draws gweddill Cymru. Bydd fy swyddogion yn parhau i gysylltu â'ch swyddogion chi i gydgyssylltu hyn.

Yn gywir



Owain Lloyd
Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Deputy Director Childcare, Play and Early Years Division

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	12fed Mehefin 2018
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Dewi W. Jones
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679233
Teitl yr Eitem:	Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 - Cais am adnoddau o'r Gronfa Drawsffurfio i gyflogi Rheolwr Prosiect am gyfnod o 2 flynedd i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth Gwireddu Arbedion o fewn y Cynllun.

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Neilltuo £104,747 o'r Gronfa Trawsffurfio, sef £51,690 yn 2018/19 a £53,057 yn 2019/20, i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth 'Gwireddu Arbedion' o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 ar yr 8fed o Fawrth mae 'Gwireddu Arbedion' wedi ei adnabod fel blaenoriaeth. Mae angen penderfyniad ar yr adnoddau fydd ar gael i gefnogi'r rhaglen gwireddu arbedion newydd er mwyn gallu symud y gwaith yn ei flaen.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Cyflwynir cais am £104,747 i gyflogi Rheolwr Prosiect am gyfnod o 2 flynedd (2018/19 a 2019/20) er mwyn cefnogi'r rhaglen gwireddu arbedion newydd.
- 3.2. Fel yr ydych yn ymwybodol mae gwireddu arbedion wedi bod yn flaenoriaeth i'r Cyngor er sawl blwyddyn a bydd cefnogi'r cais hyn am adnodd yn ymestyn y gefnogaeth sydd eisoes wedi bod yn ei le ers rhai blynyddoedd. Yn y gorffennol roedd y rôl yn gyfrifol am gefnogi'r Arweinydd Rhaglen Arbedion ac wedi ei chyllido o Gronfa Cynllun y Cyngor ond daeth y cyllid i ben ddiwedd mis Mawrth 2018.
- 3.3. Yn ogystal â chefnogi'r rhaglen arbedion ar gyfer 2015-18 i ddarganfod **c.£6m** o gynlluniau effeithlonrwydd pellach, mae'r rôl yma'n benodol wedi canolbwyntio ar ddatblygu modelau amgen newydd, ac yn rheoli'r prosiect o sefydlu'r Cwmni Hamdden ar hyn o bryd
- 3.4. Yn y dyfodol rhagwelir y bydd yn canolbwyntio ar:
 - a. gefnogi'r gyfundrefn arbedion newydd, i gynnwys pob elfen o'r cynllunio, ymgynghori, adrodd a gweithredu

b. sefydlu'r Cwmni Hamdden newydd hyd at 3ydd Chwarter 2018/19

ac, os yw amser gweddilliol yn caniatáu;

c. cefnogi datblygiad neu weithrediad cynllun neu gynlluniau arbedion fydd yn cael eu hadnabod a'u comisiynu dros y misoedd nesaf

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1. Nodir bod y Cyngor wedi gweithredu'r rhaglen arbedion yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r swyddog wedi bod yn rhan o'r tîm fu'n cefnogi'r gwaith.
- 4.2. Yn wyneb ymddeoliad Arweinydd y Rhaglen Arbedion, sydd wedi bod yn arwain ar y rhaglen arbedion dros y blynyddoedd diwethaf, bydd mwy o gyfrifoldeb ar Uwch Swyddogion o fewn Adrannau unigol i wneud y gwaith. Mae dygymod a'r gwaith hynny am fod yn heriol ond yn un y gallant ddygymod ag ef gyda chefnogaeth i reoli'r rhaglen. Heb y gefnogaeth yno fodd bynnag mae cyflawni'r gofyn yma bron yn amhosib.
- 4.3. Mae elfennau cefnogol a datblygol i'r rôl yma. Heb y buddsoddiad, byddai angen darganfod adnodd arall o fewn y Cyngor i gynnig cefnogaeth i'r rhaglen a hynny ar draul gweithgareddau eraill.
- 4.4. O ran yr elfen ddatblygol (sy'n cynnwys rheoli/gweithredu prosiectau) mae lle i gredu na fyddai'r Cyngor yn yr un sefyllfa, o safbwynt y canlyniad a'r amserlen, ar gyfer cynlluniau megis sefydlu Cwmni Hamdden heb fodolaeth y rôl.
- 4.5. Drwy ymestyn y buddsoddiad yma fe fyddwn yn cynnig adnodd ychwanegol i Adrannau fedru gwireddu cynlluniau arbedion yn ddi-oed. Bydd y rôl yn dod â sgiliau rheoli prosiect a datblygu achosion busnes i bennu cyfeiriad pendant i gynlluniau a hwyluso cyflawniad amserol arbedion.
- 4.6. Pan fo angen, bydd y rôl yn cynnig cyfle i weithredu a/neu fel adnodd annibynnol i'r Adrannau.
- 4.7. O ystyried maint yr her ariannol sydd o'n blaenau a'r gofyn am fwy o arbedion gyda llai o weithlu, argymhellir fod angen y rôl yma. Mae'r swyddog dan sylw ar gyfer y rôl yn brofiadol yn y maes datblygu a gweithredu cynlluniau arbedion.
- 4.8. Mae wedi magu profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r camau sydd eu hangen i sefydlu modelau amgen i'r dyfodol. Ar y sail hon, ac o gymharu â dargyfeirio adnoddau, mae'n fwy tebygol y byddai'r buddsoddiad yn arwain at gyflawni deilliannau'r flaenoriaeth o wireddu mwy o arbedion effeithlonrwydd a lleihau maint y toriadau fydd eu hangen.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1. O fod yn cymeradwyo'r cais am adnodd bydd Rheolwr Prosiect yn ei le i gefnogi gweithredu'r gyfundrefn gwireddu arbedion newydd hyd ddiwedd 2019/20.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf fod y rôl y swydd yma'n allweddol a hanfodol er mwyn hwyluso'r gyfundrefn arbedion, ac rwy'n cefnogi'r cais i'w ariannu yn briodol.